



**LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES**

CYFRIFON BLYNYDDOL 2020-21

Cynnwys

	Tudalen
Manylion Gweinyddol a Chyfeirio	1-2
Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu	
Datganiad llywodraethiant (yn cynnwys strwythur a rheolwyr)	3-12
Amcanion a Gweithgareddau	13-14
Cyflawniad a Pherfformiad	15-17
Adolygiad Ariannol	18-20
Adroddiad Cynaliadwyedd	21
Polisiau yn ymwneud â staffio	22
Cynlluniau ar gyfer y dyfodol	23-26
Datganiad Cyfrifoldebau'r Bwrdd a'r Llyfrgellydd	27
Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd	28-31
Datganiad Gweithgareddau Ariannol	32
Mantolen	33
Llif arian	34
Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol	35-59

MANYLION GWEINYDDOL A CHYFEIRIO

Yr Ymddiriedolwyr (at ddibenion cyfraith elusennau) a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn ac ers i'r flwyddyn ddod i ben:

Y rhai a benodwyd gan y Gweinidog:

Meri Huws (Is-lywydd a Llywydd Dros Dro o 1 Ebrill 2020)

Is-lywydd – gwag

Yr Arglwydd Aberdâr (hyd at 31 Mawrth 2021)

Dr Elizabeth Siberry (hyd at 31 Mawrth 2021)

Steve Williams (hyd at 31 Mawrth 2021)

Michael Cavanagh

Quentin Howard

Carl Williams

David Hay (o 1 Ebrill 2021)

Lydia Rumsey (o 1 Ebrill 2021)

Dr Janet Wademan (o 1 Ebrill 2021)

Y rhai a benodwyd gan y Llyfrgell Genedlaethol:

Lee Yale-Helms (Trysorydd)

D. Hugh Thomas (hyd at 31 Mawrth 2021)

Gwilym Dyfri Jones (hyd at 31 Mawrth 2021)

Eleri Twynog Davies (hyd at 30 Mehefin 2021)

Dr Gwenllian Lansdown Davies

Dr Anwen Jones

Dr Elin Royles

Susan Davies (o 1 Ebrill 2021)

Yr Athro Elaine Treharne (o 1 Ebrill 2021)

Peter Florence (o 1 Gorffennaf 2021)

Aelodau'r Tîm Gweithredol ar 31 Mawrth 2021:

Prif Weithredwr a Llyfrgellydd a'r Swyddog Cyfrifyddu

Pedr ap Llwyd

Cyfarwyddwr a Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd (Adnoddau Corfforaethol)

David H Michael

Cyfarwyddwr a Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd (Casgliadau a Rhaglenni Cyhoeddus)

Dr Owain Rh Roberts

Cynghorwyr:

Bancwyr

Banc National Westminster, Aberystwyth

Cyfreithwyr

Geldards LLP, Caerdydd
Humphreys Roberts & Bott, Aberystwyth
Hugh James, Caerdydd

Archwilwyr Allanol

Archwilio Cymru, Caerdydd

Archwilwyr Mewnol

Gwasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru

Broceriaid Buddsoddi

Investec Wealth and Investment, Llundain

Cyngor Actiwaraid a Phensiwn

Willis Towers Watson, Caeredin

Rhif Cofrestru'r Elusen

525775

Rhif TAW

905194137

Cyfeiriad Cofrestredig:

Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Penglais
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3BU

Treth Corfforaeth:

Mae'r Llyfrgell wedi'i heithrio rhag talu Treth Corfforaeth o dan Adran 505 o Ddeddf Trethi Incwm a Chorfforaeth 1988

ADRODDIAD BLYNYDDOL YR YMDDIRIEDOLWYR A'R SWYDDOG CYFRIFYDDU

I DATGANIAD LLYWODRAETHIANT 2020 - 2021

I.1 Y cefndir Statudol a'r Ddogfen Lywodraethol

Sefydlwyd Llyfrgell Genedlaethol Cymru ('y Llyfrgell') drwy Siarter Frenhinol ar 19 Mawrth 1907. Dyfarnwyd Siarteri Atodol yn 1911 ac yn 1978, gyda mân ddiwygiadau cyfansoddiadol. Ar 19 Gorffennaf 2006, rhoddwyd Siarter Atodol newydd i'r Llyfrgell gan y Frenhines Elizabeth II. Newidiodd Siarter Atodol 2006 gyfansoddiad a llywodraethiant y Llyfrgell yn sylweddol a chydnabod datganoli'r llywodraeth o San Steffan i Gymru. Yn y gorffennol roedd gan y Llyfrgell Lys o Lywodraethwyr a Chyngor, ond nawr mae gennym Fwrdd o Ymddiriedolwyr.

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru hefyd yn Elusen Gofrestredig (rhif: 525775) ac yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Fe'i hariennir drwy gyfuniad o gymorth grant a ddyrennir gan Lywodraeth Cymru, ac incwm a geir trwy weithgareddau masnachol, codi arian a rhai am dâl. Mae llythyr cylch gorchwyl blynyddol y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb am y Llyfrgell yn gosod allan dyraniad ac amodau cymorth grant y Llyfrgell.

Mae natur ddeublyg y Llyfrgell fel sefydliad Siarter Frenhinol ac Elusen Gofrestredig, a hefyd Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yn llywodraethu sut mae'n gweithredu ac yn cyflawni ei rôl a'i rhwymedigaethau, sy'n gofyn am gadw cydbwysedd gofalus rhwng mynd ar drywydd a chyflawni (a) 'nodau' ei Siarter a'i statws Elusennol, sy'n adlewyrchu ei diben sylfaenol a (b) egwyddorion llywodraethiant hyd braich. Y nodau hyn yw "casglu, diogelu a rhoi mynediad at bob math a ffurf ar wybodaeth gofnodedig, yn enwedig mewn perthynas â Chymru a Chenedl y Cymry a phobloedd Celtaidd eraill, er budd y cyhoedd, gan gynnwys y rhai sy'n ymroi i ymchwil a dysg."

I.2 Sgôp Cyfrifoldeb

Y Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd yw'r Swyddog Cyfrifyddu, ac mae, ynghyd â'r Bwrdd Ymddiriedolwyr, yn gyd gyfrifol am gynnal system gref o reolaeth fewnol sy'n cefnogi bwriadau ac amcanion y sefydliad wrth ddiogelu'r cronfeydd cyhoeddus a'r asedau maent yn bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau sydd wedi eu neilltuo iddynt.

Mae cyfrifoldebau priodol y Dirprwy Weinidog, Corff Noddi (CyMAAL), Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Llywydd, a'r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd wedi eu hamlinellu yn y Ddogfen Fframwaith a ddrafftiiwyd gan yr Adran Amgueddfeydd Archifau a Llyfrgelloedd (MALD) yn 2010 sy'n rheoli'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Llyfrgell. Bydd Dogfen Fframwaith ddiwygiedig yn cael ei chyhoeddi yn 2021.

Rôl y Bwrdd yw darparu arweinyddiaeth effeithiol, diffinio a datblygu cyfeiriad strategol, gosod amcanion heriol, hyrwyddo safonau uchel o gyllid cyhoeddus, sicrhau bod y Llyfrgell yn cyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol ac effeithlon, a monitro perfformiad, gan gynnwys perfformiad y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd, i sicrhau bod y Llyfrgell yn gyfan gwbl gwrdd â'i nodau, amcanion a thargedau perfformiad a gwasanaeth yn erbyn cynlluniau a chyllidebau. Mae'n rhaid i'r Ymddiriedolwyr weithredu er budd yr elusen yn unig, ac ni chânt dâl ar hyn o bryd. Fodd bynnag, yn dilyn penderfyniad a wnaed gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ym mis Chwefror 2020, bydd swydd y Llywydd yn cael ei thalu o 1 Ebrill 2021 ymlaen. Ond, mae Meri Huws wedi nodi na fydd yn derbyn tâl wrth wasanaethu fel Llywydd Dros Dro.

Y Llywydd yw'r prif gyfrwng rhwng y Bwrdd a'r Dirprwy Weinidog a rôl y Llywydd yw sicrhau bod aelodau eraill y Bwrdd yn cael gwybod yr ohebiaeth ddiweddaraf. Cyfrifoldeb y Llywydd hefyd yw sicrhau bod polisiâu a gweithredoedd y Bwrdd yn cefnogi polisiâu strategol ehangach y Dirprwy Weinidog a bod trafodion y Bwrdd yn cael eu cynnal yn gywir.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd sydd yn bersonol gyfrifol am stiwardiaeth yr arian cyhoeddus mae ganddo ef neu hi ofal amdanynt, gweithrediadau o ddydd i ddydd a rheolaeth

y Llyfrgell ac am sicrhau cydymffurfiaeth gyda Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru (Ionawr 2016). Mae rôl a chyfrifoldebau penodol y Swyddog Cyfrifyddu hefyd yn cael eu hamlinellu yn y ddogfen hon.

1.3 Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol

Gwnaed mân ddiwygiadau i'r Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol a'r Rheoliadau yn ystod 2020, a chafodd y rhain eu mabwysiadu gan y Bwrdd ym mis Tachwedd 2020. Mae'r Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol yn nodi prif gyfrifoldebau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a Thîm Gweithredol y Llyfrgell, pwerau dirprwyo'r Bwrdd a'r ymddygiad a ddisgwyllir gan y Bwrdd. Mae'r Fframwaith Llywodraethiant yn cynnwys Cod Ymddygiad Ymddiriedolwyr hefyd. Mae'r Rheoliadau'n gosod trafodion y Bwrdd a'i Bwyllgorau.

1.4 Recriwtio a phenodi Ymddiriedolwyr

Mae Bwrdd y Llyfrgell yn cynnwys 15 Ymddiriedolwr; penodir wyth gan Lywodraeth Cymru a saith gan y Llyfrgell. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cynnwys tri Swyddog y Llyfrgell - y Llywydd, yr Is-lywydd a'r Trysorydd. Penodir y Llywydd a'r Is-lywydd gan Lywodraeth Cymru a'r Trysorydd gan y Llyfrgell. Penodir yr Ymddiriedolwyr yn unol â Statudau a Rheoliadau'r Llyfrgell, ac egwyddorion dethol agored fel yr argymhellir yn Adolygiad Nolan.

Yn sgil pandemig COVID-19, penderfynodd yr Uned Cyrff Cyhoeddus ohirio ymgyrchoedd penodiadau cyhoeddus tan fis Medi 2020. Cytunodd y Llyfrgell, ar gais Lywodraeth Cymru, i ymestyn y penodiadau gweinidogol hynny yr oedd eu cyfnod yn y swydd yn dod i ben ym mis Hydref 2020, a hefyd y rhai a oedd yn dod i ben ym mis Ionawr 2021, tan 31 Mawrth 2021, sef yr Arglwydd Aberdâr, Dr Elizabeth Siberry a Steve Williams. Estynnodd y Llyfrgell hefyd gyfnodau Ymddiriedolwyr a benodwyd gan y Llyfrgell yn unol â hynny, sef Hugh Thomas a Gwilym Dyfri Jones.

Ym mis Hydref, gweithiodd y Llyfrgell yn agos gyda'r Uned Cyrff Cyhoeddus a Chorff a Noddir i gyflwyno ymgyrch recriwtio i benodi Llywydd, tri Ymddiriedolwr a benodwyd gan Lywodraeth Cymru, a dau Ymddiriedolwr a benodwyd gan y Llyfrgell. Gan mai ychydig iawn a ymgeisiodd am swydd y Llywydd, ymestynnodd Lywodraeth Cymru benodiad Meri Huws i fod yn Llywydd dros dro tan fis Medi 2021. Ers hynny, mae hyn wedi cael ei ymestyn tan ddiwedd mis Mawrth 2022, oherwydd etholiad y Senedd, ac er mwyn rhoi digon o amser i gynnal ymgyrch recriwtio arall.

Rydym yn croesawu'r Athro Elaine Treharne, Lydia Rumsey, Dr Janet Wademan, Susan Davies a David Hay a benodwyd yn Ymddiriedolwyr, ac ymgymerodd â'u dyletswyddau ar 1 Ebrill 2021. Rydym hefyd yn croesawu Peter Florence, a ymgymerodd â'i dyletswyddau ar 1 Gorffennaf 2021.

Rydym yn diolch i'r Ymddiriedolwyr sy'n ymadael am eu gwasanaeth ymroddedig i'r Llyfrgell, ac am gytuno i ymestyn eu cyfnod yn y swyddi er mwyn i'r Llyfrgell allu parhau ar adeg heriol iawn wrth iddi wynebu heriau pandemig COVID-19.

Roedd tymor presennol y Trysorydd yn dod i ben ar 31 Gorffennaf 2021, ond er mwyn sicrhau parhad ar adeg heriol, cytunodd y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 26 Mawrth 2021 i ymestyn ei gyfnod am ddwy flynedd arall tan 31 Gorffennaf 2023, yn unol â Statudau'r Llyfrgell.

1.5 Sefydlu a hyfforddi ymddiriedolwyr

Yn ystod y flwyddyn, diweddarwyd Llawlyfr yr Ymddiriedolwyr i gynnwys y Rheoliadau a'r Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol diwygiedig a hefyd Cod Llywodraethiant Elusennau diwygiedig.

Yn sgil pandemig COVID-19, cynhaliwyd hyfforddiant ar-lein, a chymerodd yr Ymddiriedolwyr ran mewn gweminarau ar reoli prosesau llywodraethiant elusennau, gweithrediadau a chyllid, ac un ar reoli'r gweithlu yn ystod argyfwng a throsolwg o ddyletswyddau Ymddiriedolwyr.

Hefyd, darparwyd hyfforddiant un i un ar gyflwyno'r Cyfrifon Rheoli a'r Cyfrifon Blynyddol gan Bennaeth Cyllid a Menter y Llyfrgell.

Ym mis Tachwedd 2020, cymeradwyodd y Bwrdd raglen hyfforddi ar gyfer 2021/22 sy'n cynnwys hyfforddiant cynefino ar gyfer Ymddiriedolwyr newydd a hyfforddiant parhaus ar gyfer Ymddiriedolwyr presennol, a fydd yn weithredol o fis Ebrill 2021 ymlaen.

1.6 Y Bwrdd a'i Bwyllgorau

Yn sgil pandemig COVID-19, bu'n rhaid cynnal cyfarfodydd ar-lein, a chynhaliodd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr y cyfarfod cyntaf o'r fath ar 1 Mai 2020, gyda gwasanaeth cyfieithu llawn ar y pryd. Roedd y newid hwn hefyd yn golygu bod papurau'r Bwrdd, am y tro cyntaf, yn cael eu dosbarthu'n electronig i holl aelodau'r Bwrdd, naill ai drwy borth pwrpasol y Bwrdd, neu drwy Teams y Llyfrgell. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd y Bwrdd y chwe cyfarfod a drefnwyd, a chynhaliwyd 2 gyfarfod arbennig ychwanegol. Cynhaliwyd cyfarfod ar 4 Mehefin 2020 yn benodol i drafod canlyniadau adroddiad yr Adolygiad Pwrpasol, a chynhaliwyd cyfarfod ychwanegol ar 10 Chwefror 2021 yn benodol i drafod sefyllfa'r Llyfrgell ar ôl derbyn cyllid ychwanegol o £2.25m gan Lywodraeth Cymru.

Mae gan aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr gyfrifoldeb dros gymeradwyo Cynlluniau Strategol a Gweithredu'r sefydliad, ei Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol a'r Gyllideb Flynyddol. Mae'r tri phwyllgor sefydlog yn trafod busnes y Llyfrgell fel y'i nodir yng nghylch gorchwyl bob pwyllgor, ac yn gwneud argymhellion i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar y camau i'w cymryd. Bwrdd yr Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am unrhyw benderfyniad a wneir. Mae'r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd, a'r ddau Ddirprwy Brif Weithredwr, yn mynd i bob cyfarfod y Bwrdd a'i Bwyllgorau.

Mae agendâu a chofnodion y Bwrdd yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Llyfrgell, ynghyd â chrynodeb o bapurau sydd i'w cyflwyno yng nghyfarfodydd Bwrdd.

<https://www.llyfrgell.cymru/am-llgc/llywodraethiant/llywodraethiant-llgc>

Ceir bywgraffiadau aelodau'r bwrdd ar wefan y Llyfrgell;

<https://www.llyfrgell.cymru/am-llgc/llywodraethiant/llywodraethiant-llgc/aelodau-bwrdd>

Strwythur y Pwyllgor

Pwyllgor	Cyfrifoldebau allweddol
Archwilio a Risg	Pwyllgor sefydlog sy'n cwmpasu anghenion sicrwydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu yn eu cyfrifoldebau dros faterion yn ymwneud â chyllid, risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethiant. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ymwneud â gwaith Archwilio Mewnol ac Allanol a materion yn ymwneud ac adrodd ariannol.
Llywodraethiant a Pherfformiad	Pwyllgor sefydlog sy'n cwmpasu anghenion monitro llywodraethiant a pherfformiad Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Tîm Gweithredol drwy fonitro perfformiad a'r modd y darperir gwasanaethau ac adolygu polisiau a gweithdrefnau.
Cynllunio Ariannol	Pwyllgor sefydlog sy'n cwmpasu anghenion monitro perfformiad ariannol Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Bwrdd Gweithredol, yn enwedig portffolio

buddsoddi'r Llyfrgell a'r defnydd o'i gronfeydd preifat, ei weithgareddau masnachol, a pherfformiad ei ymgyrchoedd codi arian.

Aelodaeth y Bwrdd a'i Bwyllgorau

	Cyfnod presennol	Dirwyn i ben	Y Bwrdd	Archwilio a Risg	Llywodraethiant a Pherfformiad	Cynllunio Ariannol
Meri Huws	Iaf	31.08.2023	Llywydd Dros dro	-	Cadeirydd	-
Lee Yale-Helms	Iaf	31.07.2021 (wedi ymestyn tan 31.07.2023)	Trysorydd	Aelod ex officio	-	Cadeirydd
Hugh Thomas	2il	31.10.2020 (wedi ymestyn tan 31.03.2021)	Aelod	Cadeirydd	-	-
Arglwydd Aberdâr	2il	31.10.2020 (wedi ymestyn tan 31.03.2021)	Aelod	-	-	-
Elizabeth Siberry	Iaf	31.10.2020 (wedi'i ymestyn tan 31.03.2021)	Aelod	-	Aelod	-
Gwilym Dyfri Jones	Iaf	31.01.2021 (wedi ymestyn tan 31.03.2021)	Aelod	-	Aelod	Aelod
Steve Williams	Iaf	31.01.2021 (wedi ymestyn tan 31.03.2021)	Aelod	Aelod	-	-
Eleri Twynog Davies	Iaf	30.06.2021	Aelod	-	Aelod	-
Mike Cavanagh	Iaf	31.08.2023	Aelod	Aelod	-	-
Quentin Howard	Iaf	31.08.2023	Aelod	-	-	Aelod

Carl Williams	Iaf	31.08.2023	Aelod	-	-	Aelod
Anwen Jones	Iaf	29.02.2024	Aelod	-	-	-
Elin Royles	Iaf	29.02.2024	Aelod	Aelod	-	-
Gwenllian Lansdown Davies	Iaf	29.02.2024	Aelod	-	-	-

Yn ogystal â'r pwyllgorau sefydlog, mae'r Bwrdd wedi sefydlu Panel Cyngori ar Adeiladau hefyd i oruchwylio'r rhaglen cyfalaf adeiladu yn y Llyfrgell. Cafodd y Panel ei gadeirio gan Dr Liz Siberry, Ymddiriedolwr tan 31 Mawrth 2021, a chafodd Mike Cavanagh ei benodi'n Gadeirydd o 1 Ebrill 2021 ymlaen.

Cafodd yr Ymddiriedolwyr canlynol eu hethol i wasanaethu ar Fwrdd y Gronfa Bensiynau – Carl Williams (Mai 2020), Anwen Jones (Gorffennaf 2020) a Meri Huws (Medi 2020).

Cedwir cofrestr o fuddiannau'r Bwrdd gan y Rheolwr Llywodraethiant Corfforaethol ac mae'n agored i'w harchwilio yn y Llyfrgell ar gais. Mae ffurflenni datganiad o fuddiannau gorffenedig ar gyfer 2021 wedi'u cynnwys yn y gofrestr.

Presenoldeb yng Nghyfarfodydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau

	Y Bwrdd	Archwilio a Risg	Llywodraethiant a Pherfformiad	Cynllunio Ariannol
Meri Huws	8/8		4/4	
Lee Yale-Helms	8/8	3/3		7/7
Arglwydd Aberdâr	8/8			
Hugh Thomas	6/8	2/3		
Elizabeth Siberry	8/8		3/4	
Gwilym Dyfri Jones	8/8		3/4	6/7
Steve Williams	7/8	3/3		
Eleri Twynog Humphries	7/8		3/4	
Mike Cavanagh	8/8	1/3		
Quentin Howard	8/8			7/7
Carl Williams	5/8			6/7
Anwen Jones	6/8			
Elin Royles	7/8	2/3		
Gwenllian Lansdown Davies	8/8			

*Mae'r Cadeirydd dros dro yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol fel sylwedydd.

Y Pwyllgor Archwilio a Risg

Yn unol â Rheoliadau'r Llyfrgell ac arfer da, mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg hefyd yn cynnwys dau aelod annibynnol, Rhian Evans a Janet Wademan, a gafodd eu penodi ym mis Mai 2020 yn dilyn proses benodi agored. Cychwynnodd y ddwy yn eu rôl ar 1 Mehefin 2020 am gyfnod o bedair blynedd.

Mae archwilwyr mewnol y Llyfrgell a chynrychiolwyr o Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn mynd i gyfarfodydd Pwyllgor. Mae adran noddi'r Llyfrgell, CyMAAL, yn cadw'r hawl i gynrychiolydd fynd i un cyfarfod y flwyddyn.

Bu'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn gyfrifol am y gwaith o reoli risg, a phrif risgiau strategol y Llyfrgell, gan graffu'n ofalus drwy gydol y flwyddyn, ac ar gais Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, cyflwynir y Gofrestr Risg Gorfforaethol i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ym mhob cyfarfod, ar ôl i'r Pwyllgor ei hadolygu a'i diwygio.

Penodwyd Elin Royles i'r Pwyllgor ym mis Mehefin ar ôl cael ei phenodi i'r Bwrdd.

Cyfarfu'r Pwyllgor deirgwaith yn ystod y flwyddyn, gyda'r cyfarfod ar 17 Ebrill 2020 yn cael ei ganslo, a chafodd y busnes ei ddwyn ymlaen i'r cyfarfod nesaf a drefnwyd.

Pwyllgor Cynllunio Ariannol

Neilltuodd y Pwyllgor lawer o'i amser yn ystod y flwyddyn i graffu ac adolygu'r cynlluniau ariannol a'r cyllidebau a baratowyd gan y Tîm Gweithredol yn sgil pandemig COVID-19, a'r goblygiadau o ran sefydlogrwydd ariannol y Llyfrgell. Trafodwyd Cynllun Pensiwn y Llyfrgell yn helaeth hefyd, a'r opsiynau sydd ar gael ar gyfer newid y cynllun presennol neu symud i gynllun arall, yn ogystal â thelerau diswyddo diwygiedig y Llyfrgell.

Ystyriodd y Pwyllgor hefyd unrhyw geisiadau i ddefnyddio cronfeydd preifat y Llyfrgell, a gwnaeth argymhellion yn unol â hynny i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ynghylch a ddylid cymeradwyo'r rhain ai peidio.

Yn ogystal â'r pedwar cyfarfod a drefnwyd, cynhaliodd y Pwyllgor dri chyfarfod arbennig yn ystod y flwyddyn i drafod materion penodol wrth iddynt godi. Cafodd y cyfarfod ar 14 Awst 2020 ei gynnal yn benodol i drafod cynllun diswyddo diwygiedig arfaethedig y Llyfrgell cyn yr ymarfer ailstrwythuro corfforaethol. Cafodd y cyfarfod ar 9 Chwefror 2021 ei gynnal i drafod goblygiadau derbyn cyllid ychwanegol o £2.25m a ddyrannwyd i'r Llyfrgell gan Lywodraeth Cymru, a'r amodau sy'n ymwneud â dyrannu'r cyllid hwnnw. Roedd trafodaethau yn y trydydd cyfarfod arbennig ar 22 Mawrth yn canolbwyntio ar gynllun amlinellol wedi'i gostio ar gyfer gweithredu argymhellion yr Adolygiad Pwrpasol a chyllideb ddiwygiedig ddrafft ar gyfer 2021/22.

Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad

Nid oedd y Pwyllgor hwn wedi cyfarfod yn rheolaidd yn ystod 2020 nes i'r Llywydd Dros Dro gymryd y Gadair ym mis Medi.

Prif faes craffu'r Pwyllgor hwn yn ystod gweddill 2020 oedd yr Adolygiad Pwrpasol a'i Gynllun Gweithredol, cynllun a ddrafftwyd ar y cyd gan y Llyfrgell a Llywodraeth Cymru i weithredu argymhellion a chanfyddiadau'r Adolygiad Pwrpasol a gyhoeddwyd yn 2020.

Yn ogystal â'r tri chyfarfod a drefnwyd ac a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, cafodd cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor ei gynnal ar 19 Mawrth 2021 i drafod yn benodol y goblygiadau o ran llywodraethiant wrth dderbyn cyllid ychwanegol a ddyrannwyd i'r Llyfrgell gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2021, a'r amodau sy'n ymwneud â dyrannu'r cyllid.

Bu'r Pwyllgor hefyd yn craffu'n fanwl ar y dangosyddion perfformiad ar gyfer 2020/21, yn trafod y diwygiadau i'r Rheoliadau a'r Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol, a rhaglen hyfforddi'r Ymddiriedolwyr ar gyfer 2021/22.

1.6 Perfformiad y Bwrdd

Cynhaliodd y Llywydd Dros Dro arfarniadau o aelodau'r Bwrdd yn ystod mis Ionawr 2021. Cyfarwyddwr CyMAAL wnaeth gynnal arfarniad y Llywydd Dros Dro, hefyd ym mis Ionawr 2021. Roedd y Bwrdd wedi penderfynu'n flaenorol i ohirio'r asesiad o'i effeithiolrwydd ei hun nes cyhoeddi adroddiad yr Adolygiad Pwrpasol. Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad hwnnw, a oedd yn argymhell bod y Bwrdd yn asesu ei effeithiolrwydd ei hun ac effeithiolrwydd ei bwyllgorau bob tair blynedd, gan gynnal asesiadau sgiliau rheolaidd a gwerthusiadau datblygu, bydd hyn nawr yn cael ei ystyried yn ystod 2021.

Mae'r Bwrdd yn fodlon ei fod yn cael gwybodaeth amserol a chywir ar gyfer yr holl feysydd mae'n gyfrifol amdanynt, ac mae'n hyderus bod ansawdd a chywirdeb yr wybodaeth honno yn ddigonol iddo gyflawni ei rôl.

Yn ogystal â derbyn cofnodion pob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg, y Pwyllgor Cynllunio Ariannol a'r Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad, derbyniodd y Bwrdd hefyd gofnodion o bob cyfarfod y Panel Cynghori ar Adeiladau.

Hefyd, derbyniodd y Bwrdd adroddiadau ar berfformiad strategol ac ariannol, rheoli risg, buddsoddiadau'r Llyfrgell, y Cynllun Pensiwn ac adroddiadau cynnydd ar berfformiad yn erbyn y targedau a osodwyd yn y cynllun gweithredu blynyddol.

Yn ogystal â'r eitemau sefydlog, ystyriodd y Bwrdd y materion pwysig canlynol hefyd yn ystod y flwyddyn:

- Yr Archif Ddarlledu Genedlaethol – cymeradwyodd y Bwrdd raglen prosiect ddiwygiedig, a gyflwynwyd i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol;
- Adolygiad Pwrpasol – cymeradwyodd y Bwrdd gynllun gweithredol manwl ar y cyd gan y Llyfrgell a Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu argymhellion adroddiad yr Adolygiad Pwrpasol. Bydd y cynnydd yn erbyn y cynllun yn cael ei adolygu ar ran y Bwrdd gan y Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad;
- Cymeradwyo telerau diwygiedig ar gyfer dileu swyddi staff;
- Rhaglen ailstrwythuro corfforaethol;
- Cymeradwyo Polisi Cronfeydd Wrth Gefn Elusennol diwygiedig 2020 – 2025;

- Cymeradwyo Cynllun Strategol 2021 - 2026;
- Rhaglen Cyfalaf Adeiladu – derbyniwyd adroddiadau rheolaidd ar ddatblygiad a gwaith adnewyddu Oriol Gregynog a'r Brif Neuadd;
- COVID-19 – cafodd y Bwrdd adroddiadau rheolaidd ar y goblygiadau ariannol, yr effaith ar ddigwyddiadau a gweithgareddau'r Llyfrgell, a sut roedd wedi addasu i'r her o gynnal rhith ddigwyddiadau;
- Seiberddiogelwch – mae'r Bwrdd yn ymwybodol iawn o'r risg uwch o ymosodiadau seiber, ac mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn craffu ar hyn yn rheolaidd, ac yn adrodd i'r Bwrdd. Bydd ymddiriedolwyr yn dilyn hyfforddiant penodol yn y maes hwn yn ystod 2021.

1.7 Archwilio Mewnol

Parhaodd y Llyfrgell i weithio'n agos gyda'i harchwilwyr mewnol, Gwasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru. Darperir yr archwiliad mewnol gan Wasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg wedi cytuno ar raglen waith ar gyfer 2021/22 ac wedi'i chymeradwyo. Yn sgil pandemig COVID-19, cynhaliwyd archwiliadau o bell yn ystod 2020/21.

Bob blwyddyn, mae'r gwasanaeth archwilio mewnol yn adrodd yn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol y Llyfrgell, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella. Cyflwynir adroddiadau archwilio mewnol rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg er mwyn galluogi aelodau i adolygu a herio datganiadau sicrwydd a thystiolaeth arall a ddarperir gan reolwyr. Gall y Pennaeth Archwilio Mewnol roi sicrwydd rhesymol bod y trefniadau i sicrhau llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol, o fewn y meysydd hynny sy'n cael eu hadolygu, yn cael eu cynllunio'n briodol a'u rhoi ar waith yn effeithiol. Mae angen i reolwyr roi sylw i rai materion o ran cynllunio dulliau rheoli neu gydymffurfio â'r broses o ddod i gysylltiad â risg canolig nes y bydd y rhain wedi'u datrys.

Cafodd yr archwiliadau mewnol canlynol eu cyflwyno ger bron y Pwyllgor yn ystod 2020/21:

- Prosiect Adeiladu Gofod y Prif Adeilad – Mai 2020
- Archwiliad Dilydol Iechyd a Diogelwch – Mehefin 2020
- Archwiliad Dilydol Seiberddiogelwch – Awst 2020
- COVID-19 – Newidiadau i'r Prosesau Rheoli Ariannol – Hydref 2020
- Rheoli Cofnodion Corfforaethol – Tachwedd 2020
- Cynllunio Ariannol a Strategol – Hydref/Tachwedd 2020

Cafodd yr holl archwiliadau uchod sgôr sicrwydd rhesymol, ac eithrio'r Archwiliad Rheoli Cofnodion Corfforaethol, a gafodd sgôr sicrwydd cyfyngedig. Cytunwyd ar gamau rheoli ar gyfer yr archwiliad Rheoli Cofnodion Corfforaethol, ac mae'r Pwyllgor wedi cael sicrwydd bod camau sylweddol wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r holl gamau gweithredu sydd yn yr archwiliad.

1.8 Cod Arfer Gorau ar Lywodraethiant

Hyd y gŵyr Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu, nid oes dim gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y Llyfrgell yn ymwybodol ohoni. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Bwrdd hefyd wedi cymryd yr holl gamau angenrheidiol neu ofynnol i sicrhau eu bod yn gwybod am unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod archwilwyr y Llyfrgell yn ymwybodol o'r wybodaeth

honno. Mae'r Llyfrgell wedi gweithredu'n unol â'r Cod Llywodraethiant Da: Cod ar gyfer y Trydydd Sector yng Nghymru, ac mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr wedi sicrhau, unwaith eto yn unol â'r cod ymarfer penodol hwn, fod gan y Llyfrgell drefniadau llywodraethiant cadarn ar waith i hyrwyddo perfformiad o safon uchel a diogelu priodoldeb a rheoleidd-dra.

A hithau'n Elusen Gofrestredig, mae'r Llyfrgell wedi gweithredu'n unol â Chod Llywodraethiant Elusennol Grŵp Llywio Llywodraethiant Da, a chanllaw a chodau ymarfer y Comisiwn Elusennau, sef Yr Ymddiriedolwr Hanfodol (CC3).

1.9 Rheoli Risg a Dulliau Rheoli

Mae system rheolaeth fewnol y Llyfrgell, fel y'i disgrifir yn ei Fframwaith Sicrwydd yng nghyswllt Rheoli Risg, yn seiliedig ar broses barhaus o nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni ei Chynllun Gweithredol blynyddol a'i Strategaeth; i werthuso'r tebygolrwydd o'r risgiau hynny'n digwydd a'r effaith bosibl pe baent yn digwydd; a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Cafodd ein Fframwaith Sicrwydd diwygiedig ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Archwilio a Risg i'w ystyried ym mis Ebrill 2021.

Mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol wedi adnabod, cofnodi, asesu ac ystyried y risgiau strategol a gweithredol allweddol sy'n berthnasol i weithgareddau'r Llyfrgell. Mae'r rhain yn cael eu hadolygu'n gyson gan y Tîm Gweithredol a pherchnogion risg penodedig eraill, a chymerir camau fel y bo'n briodol i reoli a lliniaru'r risgiau hyn. Hysbysir staff o'u dyletswyddau yng nghyswllt rheoli risg drwy'r Briff Craidd, (dull o gyfleu negeseuon corfforaethol allweddol i staff), a chânt eu hannog i gyfrannu at y broses.

Ni chafodd dim risgiau newydd eu cynnwys yn ystod y flwyddyn, ond roedd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn monitro ac yn craffu ar effaith pandemig COVID-19 ym mhob un o'i gyfarfodydd, a chafodd y sgorau eu haddasu i adlewyrchu'r amgylchiadau a oedd yn newid drwy'r amser. Mae Seiberddiogelwch yn faes arall y bu craffu manwl arno yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg wedi penderfynu cynnal archwiliad mewnol yn y maes hwn yn ystod 2021 er mwyn cael sicrwydd bod gan y Llyfrgell fesurau lliniaru priodol ar waith.

Yn dilyn argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Archwilio a Risg, mae sgôr y risg gweddilliol a sgôr y risg targed a awgrymir wedi'u cynnwys ar y Gofrestr Risg erbyn hyn.

Mae'r Llyfrgell yn rheoli risg mewn modd gofalus o hyd o ran ei chyfrifoldebau fel corff cyhoeddus, ac mewn meysydd megis cydymffurfio â deddfwriaeth neu amodau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Bydd bob amser yn ceisio cydymffurfio yn ddieithriad. Y risg mwyaf sylweddol i'r Llyfrgell yn y dyfodol yw'r posibilrwydd o ostyngiadau pellach yn y Cymorth Grant oddi wrth Lywodraeth Cymru oherwydd pwysau yn y dyfodol ar wariant cyhoeddus y DU, yn enwedig yng ngoleuni'r argyfwng COVID-19 presennol, i lefel lle na fydd y Llyfrgell yn gallu cyflawni ei hamcanion.

Wrth weithredu ei rhwymedigaethau statudol ac yn benodol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r Llyfrgell wedi ymrwymo o hyd i ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu'r anghenion presennol, ond sydd hefyd yn diogelu cenedlaethau'r dyfodol a'u hanghenion drwy ei Chanllawiau a'i Datganiad ar Lesiant.

Mae Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi rhoi gwybod i'r Llyfrgell y bydd y rhaglen ddiwygiedig ar gyfer Prosiect yr Archif Ddarlledu Genedlaethol yn cael ei hamlygu mewn astudiaeth achos a gaiff ei chyhoeddi, gan ddangos sut mae'r newidiadau diwygiedig i'r rhaglen yn ymateb yn gadarnhaol ac yn adeiladol i ofynion y Ddeddf.

Mae'r Llyfrgell hefyd yn dechrau ar raglen datgarboneiddio uchelgeisiol a'r nod yw gweld y Llyfrgell yn sicrhau gostyngiad o 80% mewn carbon erbyn 2030.

Ardystiwyd y Llyfrgell yn flynyddol ar gyfer Cyber Essentials, Cyber Essentials+ ac IASME tan 29 Tachwedd 2020. Gohiriwyd y broses ail-ardystio tan fis Mawrth 2021 oherwydd newidiadau mewn blaenoriaethau ac adnoddau a achoswyd gan y pandemig. Mae'r broses a'r gofynion i ail-ardystio ar y gweill yn llawn. Cafodd yr holl ddigwyddiadau diogelwch gwybodaeth eu hadrodd yn llawn i'r Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio a Risg, a'u trin yn fewnol. Ni chafwyd dim achosion o dorri amodau diogelwch lle roedd angen eu hadrodd wrth y Comisiynydd Gwybodaeth.

COVID-19

Yn dilyn y cyfyngiadau symud a oedd yn golygu bod y Llyfrgell wedi gorfod cau ei drysau i'r cyhoedd ar 17 Mawrth 2020, ail-agorodd i ddarllenwyr ar 1 Medi 2020 ar sail archebu ymlaen llaw, a chynnig gwasanaeth cyfyngedig. I'r staff hynny y nodwyd nad oeddent yn gallu gweithio o gartref yn ystod y pandemig, cawsant ddechrau dychwelyd yn raddol i'r Llyfrgell ar 20 Gorffennaf.

Cafodd y Llyfrgell ei gorfodi i gau ei drysau unwaith eto ar 18 Rhagfyr 2020 yn ystod yr ail gyfnod clo, ac mae wedi ailagor eto i ddarllenwyr a staff yn dilyn gwyliau'r Pasg ym mis Ebrill 2021, pan gafodd y cyfyngiadau eu codi.

Llofnodwyd ar ran y Bwrdd:

Pedr ap Llwyd
Llyfrgellydd a Phrif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
23 Gorffennaf 2021

Lee Yale-Helms
Trysorydd
23 Gorffennaf 2021

2 AMCANION A GWEITHGAREDDAU

2.1 Prif amcanion

Prif amcan y Llyfrgell, fel y mynegwyd yn Siarter Atodol 2006, yw:

- *casglu, diogelu a rhoi mynediad i bob math a ffurf ar wybodaeth gofnodedig, yn enwedig mewn perthynas â Chymru, y Cymry a phobloedd Celtaidd eraill, er budd y cyhoedd, gan gynnwys y rhai sy'n ymroi i ymchwil a dysg.*

Y pwrpas a'r weledigaeth sylfaenol oedd sicrhau bod hanes, diwylliant a threftadaeth unigryw Cymru, sydd wedi'i ddogfennu mewn ffurfiau a chyfryngau amrywiol dros y blynyddoedd, ar gael bob amser i alluogi pawb i gael gwell dealltwriaeth o bwy ydym, i esbonio'r etifeddiaeth hanesyddol a diwylliannol sydd wedi ein ffurfio ni fel cenedl dros y canrifoedd, ac i ysgogi dysg ac ymchwil. Mae iddi ddau ddimensiwn - adeilad ffisegol ysblennydd yn Aberystwyth sy'n gartref i gasgliadau print, llawysgrifol, gweledol a chlyweledol a hefyd yn llyfrgell, archifdy a phresenoldeb digidol ar y rhyngwrwyd.

2.2 Budd i'r Cyhoedd

Mae ein gweledigaeth 'i wneud gwahaniaeth er gwell i bawb yng Nghymru yn awr ac yn y dyfodol', fel y mae wedi'i fynegi yn ein Cynllun Strategol newydd ar gyfer 2021-26, yn sicrhau bod budd i'r cyhoedd wrth graidd ein holl weithgareddau. Wrth gyflawni eu dyletswyddau, mae'r Ymddiriedolwyr wedi cydymffurfio ag adran 2 o Ddeddf Elusennau 2011 trwy roi sylw dyladwy i'r canllawiau a gyhoeddir gan y Comisiwn Elusennau ar y budd i'r cyhoedd. Tra mai'r bobl sy'n byw yng Nghymru yw ein prif fuddiolwyr, mae'r Cynllun Strategol 'Llyfrgell i Gymru a'r Byd' hefyd yn pwysleisio ein traweffaith fyd-eang fel cyrchfan diwylliannol i ymwelwyr a thrwy ein gwasanaethau i ddefnyddwyr ar-lein ledled y byd.

2.3 Prif Weithgareddau

Dyma ein prif weithgareddau:-

2.3.1. Casglu:

Casglu deunyddiau drwy adneuron cyfreithiol, pryniannau, rhoddion, cymynroddion, cyfnewid, ac adneuo, yn unol â pholisiau datblygu casgliadau y cytunwyd arnynt.

Cyflawnir y swyddogaeth hon drwy:

- lunio casgliad mor gyflawn â phosib o ddeunydd cyhoeddedig yn ymwneud â Chymru (a gwledydd Celtaidd eraill i raddau llai helaeth), ym mhob cyfrwng, yn cynnwys cyhoeddiadau electronig ac wedi'u hargraffu a deunydd sain/delweddau symudol;
- cynnal a chadw (yn bennaf drwy adneuron cyfreithiol a phryniannau) y casgliad mwyaf cynhwysfawr yng Nghymru o ddeunyddiau wedi'u hargraffu a gyhoeddwyd yn y DU, ac Iwerddon, a deunydd ymchwil o wledydd eraill;
- datblygu casgliadau o ddeunyddiau heb eu cyhoeddi yn ymwneud â Chymru neu'n deillio o Gymru, yn cynnwys archifau a gwaith artistig;
- cael mynediad i ddeunydd a gaffaelwyd, ei brosesu, ei gatalogio a'i storio yn y ffordd fwyaf effeithiol.

2.3.2. Cadw a Diogelu:

Cadw a diogelu'r casgliadau. Cyflawnir y swyddogaeth hon drwy:

- sicrhau bod amodau o ran yr amgylchedd, storio a thrin a thrafod yn briodol ar gyfer diogelu'r casgliadau yn barhaus;
- ymyrryd er mwyn cadw'r deunyddiau i'w hatal rhag dirywio neu i atgyweirio'r difrod;
- trosglwyddo gwybodaeth i fformatau cadw mwy addas.

2.3.3. Darparu mynediad a gwybodaeth:

Darparu mynediad cyhoeddus addas/effeithiol i adeilad, casgliadau a gwasanaethau'r Llyfrgell, a gwybodaeth amdanynt. Cyflawnir y swyddogaeth hon drwy:

- fonitro a dadansoddi anghenion y defnyddiwr;
- darparu mynediad i fannau, casgliadau a chyfleusterau cyhoeddus yn yr adeilad;
- trefnu mynediad i eitemau o gasgliadau a gwasanaethau gwybodaeth ar gyfer defnyddwyr ar y safle neu drwy gyfathrebu ar-lein ar gyfer defnyddwyr o bell;
- darparu mynediad hawdd i gatalogau o gasgliadau ac adnoddau electronig y Llyfrgell, ac i'w fersiynau digidol cyfatebol.

2.3.4 Hyrwyddo a dehongli:

Codi ymwybyddiaeth o waith a chasgliadau'r Llyfrgell a lledaenu gwybodaeth amdanynt. Cyflawnir y swyddogaeth hon drwy:

- ddeunyddiau ar wefan y Llyfrgell;
- canllawiau a deunydd cyhoeddusrwydd ar bapur ac ar-lein;
- arddangosfeydd a gweithgareddau cymunedol/addysgol sy'n deillio o'r casgliadau, yn y Llyfrgell ac mewn lleoliadau eraill ledled Cymru;
- digwyddiadau, darlithoedd a seminarau.

2.3.5. Cydweithio proffesiynol:

Cydweithio â grwpiau proffesiynol cysylltiedig, ac weithiau eu harwain, ledled Cymru a thu hwnt. Cyflawnir y swyddogaeth hon drwy:

- weithredu fel canolbwyt ar gyfer cyrff archifau a llyfrgelloedd yng Nghymru;
- gweithio gyda chyrff yng Nghymru a thu hwnt i gyflawni mentrau a phartneriaethau cydweithredol yn y sectorau gwybodaeth, diwylliant a threftadaeth eang, a datblygu ymarfer proffesiynol.

Swyddogaethau cefnogi:

Caiff y **swyddogaethau craidd** eu cefnogi gan swyddogaethau rheoli a busnes hanfodol, yn cynnwys: rheoli a datblygu staff; rheoli a bod yn atebol am adnoddau ariannol a chynhyrchu incwm; a chynnal a chadw a datblygu seilwaith TGCh ac adeilad a chyfleusterau'r Llyfrgell.

Dyma'r prif weithgareddau a gynhaliwyd i hyrwyddo dibenion yr elusen er budd y cyhoedd yng Nghymru.

Mae'r Llyfrgell yn cyflwyno Cynllun Gweithredol Blynyddol i Lywodraeth Cymru ar sut y caiff y gweithgareddau eu cynnal a thargedau yn erbyn y gweithgareddau hyn. Mae rhagor o fanylion am sut cafodd y strategaeth hon ei llunio a'i chyflawni wedi'u cynnwys yn adran 7.

3. CYFLAWNIAD A PHERFFORMIAD

3.1 Prif uchafbwyntiau yn 2020/21

Cafodd pandemig y coronafeirws effaith sylweddol ar waith y Llyfrgell yn ystod 2020/21, gyda'r adeilad wedi cau i staff, ymchwilwyr ac ymwelwyr am gyfnodau estynedig. Fodd bynnag, mae'r pandemig wedi arwain at lawer o gyfleoedd, ac mae nifer o feysydd wedi llwyddo'n sylweddol yn ystod y flwyddyn, yn benodol:

3.1.1 Prosiect yr Archif Ddarlledu Genedlaethol

Lansiwyd y prosiect i sefydlu Archif Ddarlledu Genedlaethol ym mis Gorffennaf 2019. Bydd y prosiect 5 mlynedd cyffrous ac arloesol hwn gwerth dros £9m yn sefydlu Archif Ddarlledu Genedlaethol i Gymru, yr archif ddarlledu genedlaethol gyntaf yn y DU. Cafodd y prosiect ei ail-lunio yn ystod 2020-21 i ymateb i bandemig y coronafeirws a chyfleoedd eraill. Bydd yn galluogi'r cyhoedd i gael gafael ar y cyfoeth o ddeunydd darlledu ar-lein ac mewn canolfannau newydd ledled Cymru, gan roi cyfle i'r cyhoedd weld, gwranddo a mwynhau'r casgliad cyfan hwn, ynghyd â chasgliad clyweledol Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac ITV Cymru.

3.1.2 Rhaglen Digwyddiadau Ar-lein

Mewn ymateb i gyfyngiadau symud COVID-19, lansiodd y Llyfrgell raglen digwyddiadau ar-lein a oedd yn caniatáu i'r Llyfrgell gyrraedd cynulleidfifa ehangach, gwahodd ystod ehangach o siaradwyr a chyfranwyr a chydweithio â nifer o bartneriaid allanol.

3.1.3 Datblygu Adeilad y Llyfrgell

Yn ystod y pandemig, mae gwaith adnewyddu helaeth wedi bod ar adeilad eiconig y Llyfrgell yn Aberystwyth, diolch i gyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru. Yn ogystal â gwaith adnewyddu, mae ffocws o'r newydd ar ddatblygu adeilad y Llyfrgell i ddenu a chroesawu ymwelwyr. Yn ystod 2020-21, gwelsom waith adnewyddu ar Oriel Gregynog.

3.1.4 Arddangosfeydd Ar-lein

Cyhoeddwyd arddangosfa ddigidol o bortreadau'r Rhyfel Byd Cyntaf gan DC Harries mewn pryd ar gyfer Sul y Cofio 2020. Roedd arddangosfeydd Paul Peter Piech a Nick Treharne i fod i gael eu cynnal yn yr adeilad, ond cawsant eu troi'n arddangosfeydd digidol, gan ddefnyddio Casgliad y Werin Cymru fel llwyfan. Lansiwyd cyfres o arddangosfeydd ar-lein yn seiliedig ar y casgliadau ar lwyfan Google Arts and Culture ym mis Mawrth 2021.

3.1.5 Digideiddio Torfol

Yn sgil y pandemig, llwyddodd y Llyfrgell i adleoli adnoddau i gynyddu nifer y casgliadau digidol a broseswyd ac a oedd ar gael ar-lein. Darparwyd cyfanswm o 468,677 o dudalennau digidol newydd yn ystod 2020/21, a oedd yn gynydd sylweddol o'i gymharu â 2019/20.

3.1.6 Cof y Genedl: Llunio'r Dyfodol: Cynllun Strategol 2017-2021

Mae nifer o lwyddiannau nodedig wedi bod yn ystod y cyfnod cynllunio strategol o 5 mlynedd a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021. Yn benodol:

- Dros 6.1 miliwn o ymweliadau â'n gwefannau a'n hadnoddau ar-lein rhwng mis Ebrill 2017 a mis Hydref 2020, a chynnydd o 57% rhwng mis Ebrill 2017 ac Ebrill 2020.
- Cynnydd sylweddol yn y casgliadau sydd ar gael yn ddigidol, drwy ddigideiddio deunyddiau ffisegol, casglu e-gyhoeddiadau ac archifo gwefannau. Mae cyfanswm o 7 miliwn o eitemau wedi'u digideiddio ar gael erbyn hyn drwy ein catalog sydd newydd gael ei ddylunio.

- Llwyddodd rhaglen wirfoddoli, a enillodd wobrau, i gyfoethogi ein casgliadau ac, yn bwysicach, i drosglwyddo sgiliau a hyder newydd i gyfranogwyr.
- Gwefan Lleoedd Cymru i rannu gwaith dros 1,300 o wirfoddolwyr a gyfrannodd at brosiect mapiau degwm Cynefin a llwyfan ar gyfer prosiectau cyfrannu torfol yn y dyfodol.
- Ein cyfraniad at raglen Cymru'n Cofio Llywodraeth Cymru i goffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf a chydweithio â phrosiect Cymru dros Heddwch i ddigideiddio a thrawsgrifio Llyfr Cofio Cenedlaethol Cymru.
- Rhannu dros 17,000 o wrthrychau digidol ar Wikicommons, a arweiniodd at eu defnyddio mewn erthyglau Wicipedia mewn 185 o ieithoedd ledled y byd a oedd yn cael eu gwyllo tua 18 miliwn o weithiau y mis yn 2020.
- Sicrhau cyllid i sefydlu Archif Ddarlledu Genedlaethol i Gymru, y gyntaf o'i math yn y DU.

3.2. Dangosyddion Cyflawni Allweddol

Rhodddwyd adroddiad am berfformiad y Llyfrgell yng nghyswllt ei thargedau i Lywodraeth Cymru yn 2020/21 fel a ganlyn:

	Targed	Cyrhaeddiad
1a Nifer yr ymwelwyr	1,865,000	2,085,209
1b Nifer yr ymweliadau â gwasanaethau a chasgliadau digidol y Llyfrgell (cyfanswm)	1,800,000	2,085,209
1c Defnyddwyr newydd i gasgliadau a gwasanaethau digidol y Llyfrgell	1,000,000	1,233,995
1e Nifer yr ymatebion i ymholiadau o bell	7,000	3,369
2a Boddhad ymwelwyr - ymweliadau ffisegol	96%	100%
2b Boddhad ymwelwyr - ymweliadau digidol	80%	85%
3a Cyfanswm nifer y digwyddiadau	150	159
3b Digwyddiadau ar y safle a drefnwyd gan y Llyfrgell	80	77
3d Nifer y digwyddiadau estyn allan a drefnwyd gan y Llyfrgell	70	82
4a Nifer y cyfranogwyr ym mhob un o weithgareddau'r Llyfrgell (cyfanswm)	11,500	9,636
4b Nifer y cyfranogwyr mewn digwyddiadau ar y safle a drefnwyd gan y Llyfrgell	10,000	8,222
4c Nifer y cyfranogwyr mewn digwyddiadau estyn allan a drefnwyd gan y Llyfrgell	1,500	1,414
5d Gwirfoddolwyr digidol	800	848
6a Nifer y digwyddiadau Cyfuno a gweithgareddau'r Gwasanaeth Addysg	35	40
6b Nifer y cyfranogwyr mewn digwyddiadau Cyfuno a gweithgareddau'r Gwasanaeth Addysg	900	738
7a Nifer yr eitemau dehongli newydd a gyhoeddwyd ar-lein gan y Llyfrgell	1,200	2,488
7b Tudalennau digidol newydd wedi'u creu drwy raglen ddigideiddio'r Llyfrgell	200,000	468,677
8a Nifer yr argraffiadau ar draws sianeli cyfryngau cymdeithasol	2,750,000	3,632,581
8b Nifer y bobl mae cynnwys y Llyfrgell yn ei chyrraedd ar Wikimedia	190,000,000	244,402,588

Nid yw'r ffigur cyrhaeddiad ar gyfer 1a yn cynnwys ymweliadau ffisegol â'r Llyfrgell a oedd yn gyfyngedig oherwydd pandemig COVID-19 yn ystod 2020-21.

Mae perfformiad yn erbyn targedau yn cael ei adolygu gan Lywodraeth Cymru a'r Bwrdd gyda nodiadau a dehongliadau'n cael eu darparu am yr hyn a gyflawnir yn erbyn y targed.

Rydym yn rhwym i fonitro'n barhaus a gwerthuso ein gwaith mewn ffyrdd meintiol ac ansoddol. Er bod ein dangosyddion cyflawni meintiol yn rhoi ciplun ar berfformiad, mae'r data ansoddol o astudiaethau achos ac adroddiadau naratif yn parhau i roi ciplun manylach, a chyfle i fyfyrion ar ein gwaith a'i gyfoethogi.

4 ADOLYGIAD ARIANNOL

4.1 Canlyniadau a Dyriadau Arian

Paratoir y cyfrifon dan Adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Oriolau 1992 ar ffurf a bennir gan weinidogion Llywodraeth Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys. Roedd yr adnoddau net a dderbyniodd y Llyfrgell am y flwyddyn ariannol yn £3,208k (2019/20: £808k). Cyfanswm yr adnoddau a dderbyniodd y Llyfrgell oedd £17.31m (2019/20: £14.54m) a chyfanswm yr adnoddau a wariwyd oedd £14.10m (2019/20: £13.73m).

Cynyddodd y gronfa wrth gefn gyhoeddus anghyfyngedig o £338k i £789k.

Roedd balansau'r cronfeydd ar 31 Mawrth 2021 yn £78.2m (31 Mawrth 2020 £75.8m).

4.2 Datganiad o'r Arferion a Argymhellir ar gyfer Elusennau

Cyhoeddodd y Comisiwn Elusennau Ddatganiad o'r Arferion a Argymhellir (SORP) ar gyfer elusennau ym mis Hydref 1995 a ddiweddarwyd yn fwyaf diweddar gan SORP Elusennau 2015. Mae'r Llyfrgell wedi cydymffurfio â'r SORP ers cyfrifon 1996/97.

4.3 Priso'r Asedau Sefydlog Diriaethol

Comisiynodd y Llyfrgell y Syrfewyr Siartredig, Cooke ac Arkwright i gynnal ailbrisiad o adeiladau a thir rhydd-ddaliad y Llyfrgell ar 31 Mawrth 2021. Dangosir gwerth tir ac adeiladau wedi eu haddasu'n flynyddol drwy fynegeo rhwng pob prisiad ffurfiol sy'n digwydd bob pum mlynedd fel arfer. Ni chaiff asedau sefydlog eraill eu hailbrisiu na'u mynegeo, ac o 2017-18, maent yn cael eu cyfrifo ar gost wreiddiol llai dibrisiant.

4.4 Polisi Cronfeydd Wrth Gefn Elusennau

Yn unol â SORP Elusennau 2015, rhaid i'r Llyfrgell ddatgelu ei pholisi ar Gronfeydd Wrth Gefn.

4.4.1 Cronfeydd Cyhoeddus Anghyfyngedig

Ar hyn o bryd, mae'r Llyfrgell yn ddibynnol ar Lywodraeth Cymru i gynnal y rhan fwyaf o'i gweithgareddau. Polisi cronfeydd wrth gefn Cronfeydd Cyhoeddus y Llyfrgell yw cydymffurfio â gofynion Dogfen Fframwaith Llywodraeth Cymru, sy'n nodi'r fframwaith ariannol y mae'n ofynnol i'r Llyfrgell weithredu ynddo. Prif ofyniad y Ddogfen Fframwaith yng nghyswllt cronfeydd wrth gefn yw mai dim ond 2% o Grant Cymorth gros y gellir ei gadw fel balansau arian parod. Mae'r gofyniad hwn yn arbennig o anodd ar adeg o ansicrwydd ariannol a byddai lliniaru risgiau yn cyfiawnhau cario lefelau uwch o gronfeydd wrth gefn oherwydd y rhagolygon ariannol. Felly, mae'r Llyfrgell yn agored i lefel uchel o risg ariannol ac nid yw gofynion Llywodraeth Cymru yn helpu i hyrwyddo rheolaeth ariannol a rheolaeth risgiau dda mewn perthynas â lefel y cronfeydd wrth gefn a gedwir.

4.4.2 Cronfeydd Cyhoeddus Cyfyngedig

Mae cronfeydd cyfyngedig cyhoeddus yn cynrychioli Grantiau Cyfalaf a Phwrcasu a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru neu unrhyw grant a dderbyniwyd gan gorff cyhoeddus at ddibenion penodol. Mae'r arian hwn hefyd wedi'i gyfyngu i 2% o Grant Cymorth Gros i'w drosglwyddo mewn balansau arian parod.

4.4.3 Cronfeydd Preifat Anghyfyngedig

Mae tri phrif amcan gan gronfeydd preifat anghyfyngedig y Llyfrgell:

- Cyfrannu at gostau refeniw rhedeg gwasanaethau'r Llyfrgell.
- Ategu'r Grant Prynu Casgliadau i alluogi'r Llyfrgell i gyflawni ei pholisi casgliadau.
- Ariannu buddsoddiad cyfalaf neu ddatblygiadau yn y dyfodol gan gynnwys offer, adeiladau a chaledwedd a meddalwedd cyfrifiadurol.

Mae lefel y cronfeydd wrth gefn yn cael ei hadolygu a'i monitro gan y Bwrdd drwy'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol.

4.5.4 Cronfeydd Preifat Cyfyngedig

Dim ond yn unol ag unrhyw delerau penodedig pob cymynrodd benodol y gellir defnyddio cronfeydd preifat cyfyngedig y Llyfrgell. Dim ond at y dibenion a ddisgrifir y gellir eu defnyddio ac felly fe'u defnyddir dim ond pan fydd yr eitem gwariant sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r gronfa yn cael ei chymeradwyo gan y Bwrdd neu'r ariannwr.

4.6 Polisi Buddsoddi

Mae'r portffolio wedi ei fuddsoddi mewn ecwitiâu a bondiau ac mae'r swm y gellir ei fuddsoddi mewn categorïau asedau gwahanol wedi'i bennu yn unol ag asesiad risg. Ystyrir bod agwedd y Llyfrgell at risg yn un "ganolig", a deallir y bydd yn rhaid derbyn risg sy'n deillio o fuddsoddi mewn bondiau ac ecwitiâu, os am gael enillion uwch na gosod yr arian mewn cyfrif cadw.

Mae'r Bwrdd yn adolygu'r Polisi a'r Strategaeth Buddsoddi bob blwyddyn, sy'n cynnwys ystyried buddsoddiadau cymdeithasol, amgylcheddol neu foesebol.

Mae'r Llyfrgell wedi penodi rheolwyr buddsoddi, Investec Wealth & Investment, sy'n gyfrifol am fuddsoddi'r portffolio cronfeydd preifat. Mae meincnod wedi'i osod i'r rheolwyr ar gyfer perfformiad y portffolio buddsoddi, ac yn 2020/21 sicrhawyd elw o 22.76% yn erbyn meincnod o 16.63% (2019/20: -4.99% yn erbyn meincnod o -4.81%).

Rheolwyd y buddsoddiadau ar sail ddewisol yn unol â gofynion Deddf Buddsoddi gan Ymddiriedolwyr 1961 ac yn fwy diweddar, Deddf Ymddiriedolwyr 2000. Caiff perfformiad y portffolios ei fonitro a'i gyflwyno ar ffurf adroddiad yn rheolaidd i'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol a'r Ymddiriedolwyr. Ar 31 Mawrth 2021, gwerth marchnad yr arian parod a'r buddsoddiadau oedd £13.63m (£11.15m ar 31 Mawrth 2020).

4.7 Prif risgiau ac ansicrwydd

4.7.1 Ansicrwydd ariannol

Yn dilyn trafodaeth gyda Lywodraeth Cymru a'r Dirprwy Weinidog, dyfarnwyd £500k o gyllid Cymorth Grant refeniw ychwanegol i'r Llyfrgell yn 2020/21. Yn 2021/22, mae £750K ychwanegol wedi cael ei ddyrannu i dalu am gostau gweithredu'r Adolygiad Pwrpasol, a £1,000k i gwrdd â'r pwysau ariannol

eraill. Disgwylir y bydd y £1,000k hwn yn cael ei gadarnhau yn Cymorth Grant sylfaenol y Llyfrgell o 2022/23 ymlaen.

Adolygodd y Llyfrgell ei pholisi ar gyfer cronfeydd wrth gefn elusennol yn ystod 2020/21. Mae cronfeydd preifat anghyfyngedig ar gael i'r Bwrdd er mwyn rheoli risg ariannol fel rhan o'i bolisi cronfeydd wrth gefn.

4.7.2 Cynllun Pensiwn

Cafwyd prisiad actiwaraidd o'r cynllun ar 31^{ain} Mawrth 2019. Mae prif ganlyniadau prisiad actiwaraidd y Cynllun fel a ganlyn:

- Mae'r lefel ariannu ar 31 Mawrth 2019 wedi cynyddu i 100% (2016: 99%).
- Erbyn hyn mae gwarged o asedau o'i gymharu â rhwymedigaethau cronedig o £300k (2016: roedd diffyg o £400k).
- Mae cyfradd y cyfraniadau y mae'n rhaid i'r Llyfrgell eu talu i fodloni'r cronïad o fuddion gwasanaeth yn y dyfodol, gydag oedran ymddeol arferol o 65, wedi cynyddu i 34.2% o gyflogau pensiynadwy (2016: 27.2%)

Bydd cyfradd y cyfraniad ychwanegol yn cael ei rhoi ar waith o 1 Ebrill 2022 yn dilyn cyfraniad ychwanegol gan y cyflogwr o £400k ym mis Mawrth 2020 a £400k arall ym mis Mawrth 2021.

O 1 Gorffennaf 2017 ymlaen, gallai staff hefyd ddewis cyfrannu naill ai 3% o'u cyflog tuag at beidio â chael lleihad yn eu pensiwn os ydynt yn ymddeol yn 60 mlwydd oed, neu dderbyn fod yr oed ymddeol wedi ei newid i 65 mlwydd oed, ac felly y bydd lleihad actiwaraidd yn y pensiwn os byddant yn ymddeol cyn y dyddiad yma. Mae gan aelodau o staff sy'n cychwyn ar ôl y dyddiad hwn oed ymddeol arferol o 65.

5 ADRODDIAD CYNALIADWYEDD

Paratowyd yr adroddiad hwn yn unol â'r canllawiau a gyflwynwyd gan Drysorlys EM yn *Public Sector Annual Reports: Sustainability Reporting Guidance*. Yn ystod 2020-21, cyflawnwyd y canlynol -

	2020-21	2019-20	2018-19
Y defnydd o ddŵr			
Y defnydd o ddŵr m ³	6,139	9,585	10,323
Y defnydd o ddŵr m ³ fesul WTE*	28.46	43.37	40.48
Costau cyflenwad dŵr £	£23,110	£39,191	£47,054
Y defnydd o bapur			
Y defnydd o bapur mewn rimiau (allanol a mewnol)	6	698	550
Y defnydd o bapur mewn rimiau (defnydd mewnol)	2	632	514
Gwastraff			
Cyfanswm gwastraff (tunnell)	14.17	42.44	35.11
Wedi'i aildefnyddio, ei ailgylchu, ei gompostio	3.55	33.9	26.6
Tirlenwi	10.62	8.58	8.51
Peryglus	-	-	-
Wedi'i aildefnyddio, ei ailgylchu, ei gompostio fel % o'r holl wastraff	25.0%	79.8%	75.8%
Cyfanswm cost gwaredu	£8,344	£9,125	£4,953
Allyriadau nwyon tŷ gwyr			
Cyfanswm y tunelli o allyriadau CO ₂ cyfatebol			
Oherwydd teithio busnes	0	17	16
Oherwydd y defnydd o ynni (1,000 tCO ₂ e)			
Trydan a Nwy	1,133	1,276	1,368
Oherwydd y defnydd o ynni			
Trydan (kWh)	2,235,894	2,521,075	2,649,751
Nwy (kWh)	3,348,749	3,458,695	3,510,705
Gwariant ar deithio busnes £ (Car, Trên, Bws ac Awyren)	£51	£49,360	£51,591
Cyfanswm gwariant ar ynni £	£354,872	£394,724	£366,057

*WTE = cyfwerth ag amser cyflawn

Nodyn ar Ynni:

Mae'r costau yn rhoi'r cyfanswm ar gyfer y safle gan gynnwys ynni a ddarparwyd i adeilad cyfagos ond mae'r defnydd ar gyfer adeiladau'r Llyfrgell Genedlaethol yn unig.

Roedd cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021/22 yn cynnwys cyllid cyfalaf ychwanegol o £0.5M i'r Llyfrgell ddechrau ei rhaglen datgarboneiddio. Bwriedir newid y system wresogi sy'n defnyddio nwy gyda system wres/oeri cyfunol, a bydd hyn yn cynnal amodau amgylcheddol ar gyfer storio'r casgliadau ac ar yr un pryd yn darparu gwres ar gyfer rhannau eraill o'r adeilad. Mae'r Llyfrgell yn datblygu adnodd cynhyrchu ynni solar ffotofoltäig ar y safle, a'r set o baneli ar adeilad y storfa allanol a osodwyd yn 2020/21 yw'r ail osodiad o'r fath ar yr adeilad. Mae'r Llyfrgell yn gobeithio sicrhau cyllid yn y dyfodol ar gyfer datgarboneiddio yn ystod y blynyddoedd nesaf gyda'r nod o fod yn garbon niwtral erbyn canol y 2020au.

Mae gwastraff garddwriaethol a gynhyrchir ar y safle yn cael ei gompostio ar y safle. Nid yw maint y gwastraff hwn yn cael ei fesur.

6 POLISIÂU YN YMWNEUD Â STAFFIO

6.1 Cyflog Byw

Mae'r Llyfrgell wedi ymrwymo i dalu'r cyflog byw fel y nodwyd gan y Sefydliad Cyflog Byw ers mis Ebrill 2014.

6.2 Recriwtio a Chadw Staff

Dim ond drwy ymrwymiad ei staff y gall y Llyfrgell gyflawni ei nodau, felly mae'r Llyfrgell yn canolbwyntio ar ddarparu rhaglen hyfforddiant a datblygu staff yn flynyddol i sicrhau bod yr holl aelodau staff yn cyflawni eu potensial.

6.3 Cyflogi Pobl Anabl

Mae gan y Llyfrgell drefn recriwtio nad yw'n gwahaniaethu ac mae bob amser yn fodlon ystyried ceisiadau gan bobl anabl, a'u penodi. Mae'r Llyfrgell yn ymdrechu'n galed i sicrhau bod gweithwyr anabl yn cael y cyfleusterau sydd eu hangen arnynt i gyflawni'u gwaith yn effeithiol.

6.4 Ymgynghori â Gweithwyr

Mae'r Llyfrgell yn cyfleu gwybodaeth i staff mewn sawl ffordd gan gynnwys cyfarfodydd staff, negeseuon e-bost wythnosol, sesiynau briffio tîm, Briff Craidd, ac ymgynghori a negodi rheolaidd gyda'r Cyngor Partneriaeth a chynrychiolwyr yr Undebau Llafur cenedlaethol. Mabwysiadodd y Llyfrgell Strategaeth Cyfathrebu Mewnol yn 2016 a bydd gweithredu'r Strategaeth hon yn gyfle pellach i ddatblygu'r berthynas rhwng rheolwyr a staff.

6.5 Adroddiad Tâl

Mae'r Llyfrgell yn talu ei holl staff o dan system talu a graddio y cytunwyd arni. Cymeradwywyd y system bresennol gan Dîm Gweithredol y Llyfrgell a chytunodd yr undebau staff iddi drwy'r trefniadau cydfargeinio. Mae proses apelio annibynnol ar waith i ystyried materion yn ymwneud â graddio.

Bob blwyddyn, mewn ymgynghoriad ag undebau'r staff, mae'r Llyfrgell yn ystyried pecyn taliadau'r Llyfrgell yn erbyn cymaryddion allanol, symudiadau yn yr economi ac unrhyw annhegwch mewnol a all fod wedi datblygu. O hyn, cynhyrchir cylch cyflog neu gynnig, a chyflwynir hwn i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo, ac yna fe'i negodir yn ffurfiol â'r undebau. Mae hyn yn arwain at becyn tâl ac amodau newydd ar gyfer holl staff y Llyfrgell sy'n gyfrwymol tan y rownd negodi nesaf. Mae codiadau cynyddrannol dan y cylch cyflog yn dibynnu ar system y Llyfrgell o arfarniadau blynyddol. Mae elfennau chwyddiant sydd wedi'u cynnwys yn y cylch cyflog y cytunwyd arno yn cael eu dyfarnu'n awtomatig i bob aelod staff.

Mae cyflog y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd a'r ddau Gyfarwyddwr a Dirprwy Brif Weithredwyr wedi ei gynnwys fel rhan o'r broses negodi cylch cyflog ar gyfer holl staff y Llyfrgell. Mae gan y Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd presennol gytundeb cyflogaeth tymor penodol, ac mae gan y ddau Gyfarwyddwr/Dirprwy Prif Weithredwyr gytundebau parhaol. Mae'r tri yn aelodau cyffredin o gynllun pensiwn y Llyfrgell.

Cymeradwyir y cylch cyflog gan Lywodraeth Cymru. Dangosir aelodau'r Tîm Gweithredol ar dudalen 2 a cheir rhagor o fanylion am y tâl a'r buddion pensiwn yn Nodyn 8 (c) y cyfrifon. Y cyfnod rhybudd ar gyfer aelodau'r Tîm Gweithredol yw 3 mis. Mae darpariaeth ar gyfer digolledu am derfynu'n gynnar wedi ei chynnwys yng nghytundeb diswyddo safonol y Llyfrgell.

7 CYNLLUNIAU AR GYFER Y DYFODOL

2020-21 oedd blwyddyn olaf y Llyfrgell yn ei Chynllun Strategol cyfredol ar gyfer y cyfnod 2017-2021. Cafodd Cynllun Strategol newydd ar gyfer 2021-2026 yn dwyn y teitl 'Llyfrgell i Gymru a'r Byd', ei datblygu dros fisoedd lawer yn ystod haf 2020, drwy ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol. Cafodd y fersiwn derfynol ei chymeradwyo gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ym mis Ionawr 2021. Mae'n gynllun uchelgeisiol sy'n darparu ffocws a chyfeiriad clir, cydlynol a fydd yn flaenoriaeth i bawb sy'n ymwneud â'r sefydliad dros y pum mlynedd nesaf.

Mae'r cynllun newydd yn nodi pedwar amcan strategol a llesiant:

- Meithrin a gofalu am gof y genedl
- Gosod y sylfaen ar gyfer economi wybodaeth
- Bod wrth galon bywyd cenedlaethol
- Grymuso dysgu ac ymchwil

Roedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ystyriaeth allweddol wrth ddrafftio'r Cynllun Strategol newydd, ac mae gofynion y Ddeddf wedi cael eu hystyried wrth lunio cynlluniau i gyflawni yn erbyn yr amcanion.

Amcan Strategol I Meithrin a gofalu am gof y genedl	Sut byddwn yn cyflawni hyn?
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Cofnodi'r Gymru gyfoes ➤ Ymrwymo i amrywiaeth ➤ Arwain wrth gadw a rheoli gwybodaeth 	<ul style="list-style-type: none"> • Byddwn yn datblygu ac yn buddsoddi yn y gwaith o gasglu a chadw deunyddiau digidol mewn gwahanol fformatau • Byddwn yn sefydlu Archif Ddarlledu Genedlaethol a fydd yn gofnod cyfoethog a chynhwysfawr o fywyd yn yr 20fed Ganrif a'r 21ain Ganrif. • Byddwn yn darparu arweiniad a chynghor ar gadwraeth ac yn codi ymwybyddiaeth o'r risgiau o golli'r cof cenedlaethol yn yr oes ddigidol • Byddwn yn datblygu ein perthynas â llyfrgelloedd, archifau, amgueddfeydd ac eraill yn y sector treftadaeth wrth i ni gasglu cof y genedl • Byddwn yn meithrin ein cysylltiadau â chymunedau ethnig amrywiol ledled Cymru. • Byddwn yn gweithio gyda'r cymunedau hyn wrth i ni barhau i ddatblygu ein Polisi Casgliadau. • Byddwn yn adolygu'r ffordd y caiff ein casgliadau eu disgrifio, eu dehongli a'u hyrwyddo • Byddwn yn buddsoddi yn y broses o feithrin a throsglwyddo sgiliau cadwraeth ffisegol a digidol yn y Llyfrgell ac ar draws y sector • Byddwn yn buddsoddi yn natblygiad ein seilwaith technegol fel cartref dibynadwy i'n casgliadau digidol • Byddwn yn cefnogi sefydliadau eraill i ddiogelu casgliadau digidol

	<ul style="list-style-type: none"> • Byddwn yn rhannu arferion da ym maes rheoli gwybodaeth, cadwraeth a datblygu casgliadau yn rhyngwladol
Amcan Strategol 2 Gosod y sylfaen ar gyfer economi wybodaeth	Sut byddwn yn cyflawni hyn?
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gwybodaeth sy'n bywiogi ac yn ysbrydoli ➤ Creu cyfleoedd i gyfranogi ➤ Gwella profiad defnyddiwr 	<ul style="list-style-type: none"> • Byddwn yn adolygu drwy'r amser y ffordd rydym yn disgrifio casgliadau, er mwyn darparu mynediad effeithiol a thynnu sylw at gasgliadau 'cudd' • Byddwn yn gwella mynediad at gasgliadau ffisegol drwy barhau â'n rhaglen ddigideiddio • Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i gynyddu'r defnydd o gasgliadau gan fusnesau a'r sector creadigol • Byddwn yn gweithio i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn fformat hwylus ac agored • Byddwn yn parhau i gynnig amrywiaeth o gyfleoedd gwirfoddoli ar safleoedd y Llyfrgell • Byddwn yn cynyddu'r cyfleoedd i wirfoddoli ac ymwneud â'r casgliadau ar sail ddigidol, gan ddefnyddio dulliau fel cyfrannu torfol • Byddwn yn cefnogi prosiectau a rhaglenni cyfranogi cenedlaethol a rhyngwladol. • Byddwn yn datblygu ffyrdd newydd ac arloesol o ehangu mynediad at wybodaeth • Byddwn yn sicrhau bod adborth defnyddwyr a llais y defnyddiwr yn ganolog i ddatblygiad ein gwasanaethau • Byddwn yn buddsoddi yn yr adeilad yn Aberystwyth fel cyrchfan i ymwelwyr, lle gall ymwelwyr o Gymru a'r byd ymchwilio, darganfod a mwynhau
Amcan Strategol 3 Bod wrth galon bywyd cenedlaethol	Sut byddwn yn cyflawni hyn?
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Cysylltu cymunedau ➤ Rhannu casgliadau ➤ Hyrwyddo Cymru sy'n fyd-eang 	<ul style="list-style-type: none"> • Byddwn yn buddsoddi yn ein perthynas a'n cysylltiadau ag unigolion a chymunedau gyda'r nod o gynyddu gwerth ac effaith ein casgliadau a'n gwasanaethau • Byddwn yn creu cysylltiadau â chymunedau a chynulleidfaoedd newydd • Byddwn yn ystyried pob cyfle i ehangu ein cysylltiadau â chyrrff cyhoeddus a sefydliadau ledled Cymru a thu hwnt • Byddwn yn gwella mynediad a chysylltiadau ledled Cymru drwy weithgareddau'r Archif Ddarlledu Genedlaethol. • Byddwn yn rhannu ein casgliadau'n eang ac yn agored gyda'r nod o gyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sicrhau'r ymgysylltiad llwyr • Byddwn yn datblygu dulliau a sianeli ar gyfer gweithio ar y cyd â'r cyhoedd i ddehongli ein hanes a'n diwylliant gyda'n gilydd

	<ul style="list-style-type: none"> • Byddwn yn cynnal arddangosfeydd a digwyddiadau ar themâu sy'n amserol ac yn berthnasol i Gymru heddiw • Byddwn yn hyrwyddo safleoedd y Llyfrgell fel cyrchfannau diwylliannol • Byddwn yn datblygu ac yn cyflwyno Strategaeth Ryngwladol ac yn cydweithio â Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill i hyrwyddo Cymru ar lwyfan byd-eang • Byddwn yn parhau i feithrin a chryfhau ein perthynas â'r Cymry ar wasgar
<p>Amcan Strategol 4 Grymuso ymchwil a dysg</p>	<p>Sut byddwn yn cyflawni hyn?</p>
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Galluogi ymchwil ac arloesedd ➤ Cefnogi addysg ffurfiol ➤ Hybu dysgu anffurfiol 	<ul style="list-style-type: none"> • Byddwn yn meithrin perthynas gyda Sefydliadau Addysg Uwch a thimoedd ymchwil sydd â diddordeb yn y casgliadau • Byddwn yn archwilio ac arbrofi gyda thechnolegau newydd fel modd o wella mynediad ac ymchwil, gan gefnogi agweddau fel data daearyddol, deallusrwydd artifisial a mabwysiadu cysyniadau fel 'casgliadau fel data' • Byddwn yn cydweithio gyda partneriaid a rhanddeiliaid gyda'r nod o sefydlu cadwrfa ddigidol dibynadwy achrededig fel isadeiledd ar gyfer ymchwil • Byddwn yn parhau i gyfrannu at ddatblygiad y Cwricwlwm i Gymru • Byddwn yn parhau i gynyddu'n darpariaeth o adnoddau dysgu digidol ein hunain ac ar y cyd â phartneriaid • Byddwn yn buddsoddi yn ein gwasanaethau i ysgolion ac addysg ôl-16 • Datblygu rhaglen addysgu anffurfiol i feithrin sgiliau a throsglwyddo gwybodaeth • Byddwn yn cynyddu'r cynnwys deongliadol sydd ar gael ar-lein fel adnoddau ar gyfer addysg anffurfiol • Byddwn yn chwilio am cyfleon i gydweithio â phartneriaid i gefnogi addysg anffurfiol mewn cymunedau ledled Cymru

Ymddiriedolwyr

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau i roi sylw dyladwy i'r canllawiau a gyhoeddir gan y Comisiwn Elusennau.

Archwilydd

Mae'r Cyfrifon yn cael eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol ag Adran 9(8) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Oriolau 1992 ar gyfer Cymru.

Pedr ap Llwyd
PRIF WEITHREDWR A LLYFRGELLYDD
23 Gorffennaf 2021

Lee Yale-Helms
TRYSORYDD
23 Gorffennaf 2021

DATGANIAD CYFRIFOLDEBAU'R BWRDD A'R LLYFRGELLYDD

O dan Adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Oriolau 1992, mae'n ofynnol bod Bwrdd Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn paratoi datganiad cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y ffurf ac ar y sail a bennir gan Weinidogion Llywodraeth Cymru gyda chydysyniad y Trysorlys. Paratwir y cyfrifon i roi darlun cywir a theg o weithgareddau ariannol y Llyfrgell yn ystod y flwyddyn ac am ei sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn.

Wrth baratoi cyfrifon y Llyfrgell, mae'n ofynnol bod y Bwrdd yn:-

- Glynw wrth y cyfarwyddyd cyfrifyddu a gyhoeddir gan weinidogion Llywodraeth Cymru gan gynnwys y gofynion datgelu a chyfrifyddu perthnasol, a'u defnyddio'n gyson.
- Gwneud penderfyniadau a rhagamcanion sy'n rhesymol a darbodus.
- Dweud a yw'r safonau cyfrifyddu perthnasol a'r datganiadau o'r arferion a argymhellir wedi cael eu dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau o bwys yn y datganiadau ariannol.
- Paratwir datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai nad yw'n briodol tybio y bydd y Llyfrgell yn parhau i weithredu.

Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu ar ran Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi dynodi'r Llyfrgellydd yn Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y Llyfrgell. Mae ei chyfrifoldebau/gyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei chyfrifoldeb/gyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae hi'n/ef yn atebol amdano a thros gadw cofnodion priodol, yn cael eu disgrifio ym Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru.

Datganiad Datgelu Gwybodaeth Archwilio Berthnasol

Hyd y gŵyr y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes dim gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni, ac mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi cymryd yr holl gamau y dylai eu cymryd i sicrhau ei bod/fod yn gwybod am unrhyw wybodaeth archwilio ac i sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Pedr ap Llwyd
PRIF WEITHREDWR A LLYFRGELLYDD
23 Gorffennaf 2021

Llofnodwyd ar ran y Bwrdd gan:

Lee Yale-Helms
TRYSORYDD
23 Gorffennaf 2021

Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

Barn ar y datganiadau ariannol

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 o dan adran 9 o Ddeddf Amgueddfeydd ac Oriolau 1992. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu arwyddocaol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r polisiau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu y Deyrnas Unedig (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol gan y Deyrnas Unedig).

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar 31 Mawrth 2021 ac o'i hincwm net, ei henillion a'i cholledion cydnabyddedig a'r llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol gan y Deyrnas Unedig; ac
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan adran 9 o Ddeddf Amgueddfeydd ac Oriolau 1992.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodiadau ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli nhw.

Sail y barnau

Cynhaliâs fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Cyrff y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Mae disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau o dan y safonau hynny yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd wrth archwilio datganiadau ariannol fy adroddiad. Rwyf yn annibynnol o'r corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesebol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi ei chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barnau.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnais, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau nac amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Llyfrgell Genedlaethol Cymru i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg pan awdurdodir cyhoeddiad y datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Llyfrgellydd fel Swyddog Cyfrifyddu mewn cysylltiad â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Cyfrifon Blynyddol heblaw'r datganiadau ariannol, elfennau archwiliedig yr adroddiad tâliadau a'm hadroddiad archwilydd arnynt. Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Llyfrgellydd fel Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, oni nodir fel arall yn glir yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o sicrwydd ynghylch hynny.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn berthnasol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu ei bod yn ymddangos fel arall ei bod wedi ei chamddatgan yn berthnasol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol amlwg, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os

byddaf, ar sail y gwaith a gyflawnais, yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi ei chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol imi sôn am y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd amdano i'r perwyl hwn.

Adroddiad ynghylch gofynion eraill

Barn ar faterion eraill

Er nad oes unrhyw ofynion deddfwriaethol ar gyfer Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth, mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi paratoi adroddiad o'r fath ac yn fy marn i, mae'r rhan y mae'n ofynnol ei harchwilio fel arfer wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chanllawiau Trysorlys EM.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu wedi ei baratoi yn unol â chanllawiau Trysorlys EM;
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Cyfrifon Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratwir y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Cyfrifon Blynyddol wedi ei baratoi yn unol â gofynion cyfreithiol perthnasol.

Materion y byddaf yn adrodd arnynt drwy eithriad

O ystyried yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Llyfrgell Genedlaethol Cymru a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Cyfrifon Blynyddol gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol yr adroddaf i chi, os, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu boddhaol wedi eu cadw, neu ni dderbyniwyd ffurflenni cyfrifyddu digonol ar gyfer fy archwiliad oddi wrth y canghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â nhw;
- nad yw'r datganiadau ariannol na rhan archwiliedig yr Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- na ddatgelir gwybodaeth a bennir gan Weinidogion Cymru ynghylch taliadau cydnabyddiaeth a thrafodiadau eraill; neu
- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Llyfrgellydd mewn cysylltiad â'r datganiadau ariannol

Fel yr esbonir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Llyfrgellydd fel Swyddog Cyfrifyddu, y Bwrdd a'r Llyfrgellydd fel Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Amgueddfeydd ac Oriolau 1992 a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed yno, i fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg ac am y fath reolaeth fewnol y mae'r Bwrdd a'r Llyfrgellydd yn penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, y Bwrdd a'r Llyfrgellydd sy'n gyfrifol am asesu gallu Llyfrgell Genedlaethol Cymru i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n briodol, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni thbyr bod hynny'n amhriodol.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfarwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Sicrwydd rhesymol yw lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) yn canfod camddatganiad perthnasol bob amser pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi trwy dwyll neu

wall a chânt eu hystyried yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn. Afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yw achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn cysylltiad ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Llyfrgell Genedlaethol Cymru mewn cysylltiad â:
 - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio;
 - canfod ac ymateb i risgiau o dwyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig;
 - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- ystyried, gan weithredu fel tîm archwilio, sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Yn rhan o'r drafodaeth hon, nodais y posibilrwydd o dwyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw a phostio cylchgronau anarferol;
- cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill y mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y chyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau ar gyfer ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau y datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol er mwyn asesu cydymffurfedd â'r chyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Risg a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch cyfreithiad a honiadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau perthnasol eraill;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrth-wneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion mewn cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r barnau a wneir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodiadau arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i fusnes arferol; a
- profi'n sylweddol sampl o daliadau mawr o'r cofnodion bancio tua diwedd y flwyddyn ariannol i sicrhau eu bod wedi eu cyfrifo yn y flwyddyn gywir.

Rwyf hefyd wedi cyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau o dwyll posibl i bob aelod o'r tîm archwilio, gan barhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a natur, amseru a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir yn effeithio ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad archwilydd.

Cyfrifoldebau rheoleidd-dra

Y Llyfrgellydd fel Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra y trafodiadau ariannol.

Rwy'n cael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol imi fod y gwariant a'r incwm wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli nhw.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ynghylch y datganiadau ariannol hyn.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
2 Awst 2021

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

**DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN A
DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2021**

Nodiadau	CRONFEYDD		CYHOEDDUS		CRONFEYDD PREIFAT		2020/21	2019/20
	Anghyfyngedig £'000	Cyfyngedig £'000	Anghyfyngedig £'000	Cyfyngedig £'000	Anghyfyngedig £'000	Cyfyngedig £'000	Cyfanswm £'000	Cyfanswm £'000
Incwm:								
Rhoddion a chymynroddion	15b	-	-		1,210	478	1,688	1,435
Gweithgareddau elusennol								
Grantiau'r Llywodraeth	2	10,444	3,811		-	-	14,255	11,813
Grantiau Eraill	3	612	444		-	-	1,056	407
Gweithgareddau masnachu eraill	4	145	-		-	-	145	610
Incwm o fuddsoddiadau	15b	-	-		158	3	161	272
Cyfanswm Incwm		11,201	4,255		1,368	481	17,305	14,537
Gwariant:								
Costau codi arian	5	535	56		44	1	636	937
Gweithgareddau elusennol:								
Casglu	5	2,563	700		-	-	3,263	2,829
Darparu Mynediad a Gwybodaeth	5	3,132	751		-	-	3,883	3,384
Hyrwyddo a Dehongli	5	1,273	355		-	28	1,656	1,751
Cadwraeth a Diogelu	5	3,370	531		-	-	3,901	3,582
Llywodraethiant	5	1,217	174		-	-	1,391	1,230
Cyfanswm gwariant		12,090	2,567		44	29	14,730	13,713
(Enillion)/Colledion ar waredu buddsoddiadau	15b	-	-		(1,042)	(21)	(1,063)	(234)
Costau Cyllid Pensiwn	22d	430	-		-	-	430	250
Cyfanswm gwariant		12,520	2,567		(998)	8	14,097	13,729
Incwm /(Gwariant) net		(1,319)	1,688		2,366	473	3,208	808
Trosglwyddiadau gros rhwng cronfeydd	15	-	850		(822)	(28)	-	-
		(1,319)	2,538		1,544	445	3,208	808
Enillion /(Colledion) cydnabyddedig eraill:								
Enillion/ (Colledion) heb eu gwireddu ar fuddsoddiadau	15b	-	-		1,271	-	1,271	(1,050)
Ailbriso Asedau Sefydlog	10	-	(452)		-	-	(452)	(3,393)
Diriaethol, mynegeo ac amhariad								
Enillion / (colledion) actiwaraid ar y cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio	22e	(1,660)	-		-	-	(1,660)	(13,890)
Cyfanswm enillion/(colledion)		(1,660)	(452)		1,271	-	(841)	(18,333)
SYMUDIAD NET YN Y CRONFEYDD AM Y FLWYDDYN ARIANNOL		(2,979)	2,086		2,815	445	2,367	(17,525)
BALANSAU'R CRONFEYDD A DDYGWYD YMLAEN AR 1 EBRILL	15	(24,152)	80,699		12,007	7,283	75,837	93,362
BALANSAU'R CRONFEYDD A GARIWYD YMLAEN AR 31 MAWRTH	15	(27,131)	82,785		14,822	7,728	78,204	75,837

Mae pob gweithgarwch yn parhau. Caiff yr holl enillion a cholledion cydnabyddedig eu cofnodi yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol. Mae'r nodiadau ar dudalennau 35 i 59 yn rhan o'r cyfrifon hyn. Nid oes incwm na gwariant gwaddol i adrodd arnynt.

Y FANTOLEN AR 31 MAWRTH 2021

		31ain Mawrth 2021		31ain Mawrth 2020	
	Nodiadau	£000	£000	£000	£000
ASEDAU SEFYDLOG					
Asedau Diriaethol	10	66,535		65,152	
Asedau Anniriaethol	10	337		405	
Asedau Treftadaeth	12	22,473		21,802	
Buddsoddiadau	11	13,630		11,149	
			102,975		98,508
ASEDAU CYFREDOL					
Stociau		45		45	
Dyledwyr	13	2,641		1,893	
Banc		1,614		530	
		4,300		2,468	
CREDYDWYR					
Symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn	14	(1,151)		(649)	
ASEDAU CYFREDOL NET					
			3,149		1,819
Asedau net heb gynnwys rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn					
			106,124		100,327
Rhwymedigaethau pensiwn â buddion wedi'u diffinio					
	22		(27,920)		(24,490)
ASEDAU NET GAN GYNNWYS RHWYMEDIGAETHAU'R CYNLLUN PENSIWN					
			78,204		75,837
CRONFEYDD					
	15				
Cyhoeddus Anghyfyngedig		789		338	
Pensiwn wrth gefn		(27,920)		(24,490)	
Cyfanswm y Cronfeydd Cyhoeddus Anghyfyngedig		(27,131)		(24,152)	
Cyhoeddus Cyfyngedig (heb gynnwys y Gronfa Ailbriso)		61,415		58,877	
Cronfa Ailbriso		21,370		21,822	
Preifat Anghyfyngedig		14,822		12,007	
Preifat Cyfyngedig		249		257	
Casgliadau Cyfyngedig Preifat		7,479		7,026	
			78,204		75,837

Mae'r ymddiriedolwyr wedi paratoi'r cyfrifon yn unol ag adran 132 o Ddeddf Elusennau 2011.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 35 i 59 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Pedr ap Llwyd
PRIF WEITHREDWR A
LLYFRGELLYDD
23 Gorffennaf 2021

Lee Yale-Helms
TRYSORYDD
23 Gorffennaf
2021

DATGANIAD LLIF ARIAN AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2021

		2020/21		2019/20	
		£000	£000	£000	£000
Arian parod a gynhyrwyd drwy weithgareddau gweithredol	17		4,534		1,071
Arian parod o weithgareddau buddsoddi: -					
Prynu asedau sefydlog diriaethol ac anniriaethol	10	(3,085)		(3,657)	
Prynu asedau treftadaeth	12	(218)		(401)	
Enillion wrth werthu buddsoddiadau	11	6,383		1,144	
Prynu Buddsoddiadau	11	(7,495)		(984)	
Arian parod net a ddarparwyd gan/(a ddefnyddiwyd mewn) gweithgareddau buddsoddi			(4,415)		(3,898)
Cynnydd/(Lleihad) mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod			<u>119</u>		<u>(2,827)</u>
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn			2,948		5,775
Cyfanswm yr arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn	18		3,067		2,948

Mae'r nodiadau ar dudalennau 35 i 59 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

NODIADAU I'R CYFRIFON AR 31 MAWRTH 2021

I POLISIÂU CYFRIFYDDU

Mae'r prif bolisiau cyfrifyddu a fabwysiadwyd, y penderfyniadau a'r prif ffynonellau o ansicrwydd amcangyfrif wrth baratoi'r datganiadau ariannol fel a ganlyn:

(a) **Sail paratoi**

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU ac yng Ngweriniaeth Iwerddon (FRS 102), SORP Elusennau (FRS 102) a Chyfarwyddyd Cyfrifon 2000 a roddwyd i'r Llyfrgell gan Lywodraeth Cymru. Paratwir y cyfrifon ar sail cyfrifyddu busnes gweithredol.

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn cyd-fynd â'r diffiniad o endid budd cyhoeddus o dan FRS 102. Caiff asedau a rhwymedigaethau eu cydnabod i gychwyn ar werth trafodion neu gostau hanesyddol oni nodir yn wahanol yn y nodyn/nodiadau polisi cyfrifyddu perthnasol.

Mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion y Safonau Cyfrifyddu a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol i'r graddau y bo'r gofynion hynny'n briodol. Nid yw'r Cyfarwyddyd Cyfrifyddu yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llyfrgell lunio cyfrif incwm a gwariant cryno na nodyn cost hanesyddol ar wargedau neu ddiffygion.

(b) **Adnoddau a Dderbyniwyd**

Cydnabyddir yr holl incwm pan fydd gan yr elusen hawl i'r arian, pan fydd unrhyw amodau perfformiad sy'n gysylltiedig â'r eitem wedi'u bodloni, pan fo'n debygol y bydd yr incwm yn cael ei dderbyn a gellir mesur y swm yn ddibynadwy.

Caiff pob Cymorth Grant gan Lywodraeth Cymru ei gydnabod yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol fel swm derbyniadwy. Caiff grantiau eraill mwy penodol eu cydnabod fel symiau derbyniadwy pan fydd amodau grant yn cael eu bodloni.

Ar gyfer ewyllysiau, tybir bod hawl yn golygu'r cynharaf o'r canlynol: y dyddiad y daw'r elusen yn ymwybodol bod profiant wedi'i roi, y dyddiad y bydd yr ystad wedi'i therfynu a bydd yr ysgutor(ion) wedi hysbysu'r Llyfrgell y bydd dosbarthiad yn cael ei wneud, neu'r dyddiad y derbynnir dosbarthiad gan yr ystad. Lle bo'r elusen wedi'i hysbysu o etifeddiaeth, neu lle bo'r elusen yn ymwybodol bod profiant wedi'i roi, ac nad yw'r meini prawf ar gyfer cydnabod incwm wedi'u bodloni, yna caiff yr etifeddiaeth ei thrin fel ased wrth gefn a'i datgelu os yw o bwys. Rhoddir cyfrif am drosglwyddiadau o gronfeydd preifat ar ôl ystyried y symudiadau yn y cyfalaf gweithio. Bydd incwm a dderbyniwyd yng nghyswllt cyfnodau cyfrifyddu dilynol yn cael ei drin fel incwm gohiriedig.

Cyfrifyddu Arian

Mae cronfeydd anghyfyngedig (cyhoeddus a phreifat) ar gael i'w gwario ar weithgareddau sy'n datblygu unrhyw un o amcanion cyffredinol y Llyfrgell. Mae'r cronfeydd cyhoeddus cyfyngedig yn cynrychioli Grantiau Prynu a Chyfalaf a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru at ddibenion penodol.

Mae'r cronfeydd cyfyngedig preifat yn gronfeydd sy'n rhwym wrth gyfyngiadau penodol a osodir gan roddwyr neu gan ddiben yr apêl. Cronfeydd anghyfyngedig yr elusen yw'r cronfeydd dynodedig y mae'r ymddiriedolwyr wedi penderfynu yn ôl eu disgrisiwn eu bod am eu rhoi o'r neilltu at ddiben penodol. Mae'r cronfeydd cyfyngedig preifat yn rhoddion y mae'r rhoddwyr

wedi nodi eu bod am iddynt gael eu defnyddio ar gyfer maes penodol o waith y Llyfrgell neu ar gyfer prosiect penodol a gaiff ei gyflawni gan y Llyfrgell.

(c) Gwariant

Caiff gwariant ei gydnabod pan fydd rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i dalu trydydd parti, pan fo'n debygol y bydd setliad yn ofynnol a gellir mesur swm y rhwymedigaethau'n ddibynadwy. Lle yr aed i wariant ymlaen llaw a lle bo'n ymwneud â chyfnod diweddarach, dim ond os bydd rhagdaliad yn werth mwy na £5,000 y caiff ei ystyried. Lle yr aed i wariant fel ôl-daliad ond ei fod yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol gyfredol, dim ond os bydd y cronriad yn werth mwy na £5,000 y caiff ei ystyried. Caiff gwariant ei ddsbarthu o dan y penawdau gweithgarwch canlynol:

- Mae cost codi arian yn cynnwys costau gweithgareddau masnachol, costau codi arian a ffioedd rheoli buddsoddiadau.
- Mae gwariant ar weithgareddau elusennol yn cynnwys costau cynnal a chadw casgliadau, cadwraeth, addysg ac arddangosfeydd a gweithgareddau eraill a gynhaliwyd i hyrwyddo dibenion yr elusen.
- Mae gwariant arall yn cynrychioli'r eitemau hynny nad ydynt yn perthyn i unrhyw benawdau eraill.

(d) Buddsoddiadau

Datganir buddsoddiadau yn ôl eu gwerth ar y farchnad ar ddyddiad y fantolen. Caiff enillion a cholledion wrth waredu eu credydu neu eu cofnodi yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol. Bydd symudiadau yng ngwerth buddsoddiadau ar y farchnad a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn hefyd yn cael eu hadlewyrchu yn y datganiad hwnnw yn unol â SORP Elusennau (FRS 102).

(e) Asedau Diriaethol ac Anniriaethol

Caiff cerbydau modur, offer, peiriannau a chyfarpar unigol sy'n costio £5,000 neu fwy eu cyfalafu ar gost, oni bai bod y cyfarpar yn rhan o grŵp o asedau, rhwydwaith neu brosiect sy'n werth mwy na £5,000. Bydd yr asedau yn colli'u gwerth dros amcangyfrif o'u hoes ddefnyddiol ar sail llinell syth. Ni chaiff eitemau o natur gyfalaf sy'n costio llai na £5,000 eu cyfalafu ac fe'u dilëir yn ystod y flwyddyn. Mae asedau nad ydynt yn adeiladau (hynny yw, offer, cerbydau, gosodion, ffitiadau a chyfarpar) yn cael eu dal ar gost hanesyddol ac nid eu mynegeoio gan fod gan yr asedau hyn fywydau economaidd defnyddiol byr neu werthoedd isel (neu'r ddau). Ystyrir hyn yn gynrychiolaeth fwy dibynadwy, priodol a pherthnasol o werth teg yr asedau hyn. Ceir rhagor o wybodaeth yn Nodyn 10.

Fel arfer, caiff tir ac adeiladau eu prasio'n broffesiynol bob pum mlynedd ar sail eu gwerth cyfredol yn eu defnydd presennol, gan dybio y byddai'r eiddo yn cael ei werthu fel rhan o fusnes parhaus ac yn cael ei ailbriso gan ddefnyddio mynegai yn y cyfamser. Bydd enillion ailbriso yn cael eu cydnabod yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol o dan enillion/(colledion) ar ailbriso asedau sefydlog, ac eithrio i'r graddau y maent yn gwneud iawn am unrhyw ddileu blaenorol o wariant yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, ac yn yr achos hwn bydd yr enillion yn cael eu gwrthdroi yn erbyn y pennawd gwariant perthnasol. Bydd colledion ailbriso yn cael eu cydnabod fel traul o dan y pennawd gwariant perthnasol yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, ac eithrio i'r graddau y maent yn gwneud iawn am unrhyw enillion ailbriso blaenorol, ac os felly bydd y golled yn cael ei dangos o dan enillion/(colledion) ar ailbriso asedau sefydlog. Caiff gwaith cynnal a chadw arferol ar adeiladau ei nodi fel gwariant refeniw yn ystod y flwyddyn y gwneir hynny.

Darperir dibrisiant yn llawn yn y flwyddyn gaffael, ar gyfraddau a fydd yn lleihau pob ased i amcangyfrif o'i werth gweddilliol yn wastad dros ei oes economaidd ddefnyddiol ddisgwyliedig, yn unol â chyngor y priswyr, fel a ganlyn:

- Adeiladau rhydd-ddaliad - hyd at 125 mlynedd
- Offer, peiriannau a chyfarpar - hyd at 30 mlynedd
- Offer cyfrifiadurol a datblygiadau digidol - hyd at 10 mlynedd
- Cerbydau Modur - hyd at 5 mlynedd

Nid yw tir rhydd-ddaliad yn cael ei ddibrisio.

Nid yw Pryniannau i'r Casgliadau yn cael eu dibrisio (gweler Asedau Treftadaeth (f)).

Mae asedau anniriaethol gyda bywyd economaidd o fwy na blwyddyn a gwerth uwch na £5,000 wedi eu cyfalafu. Mae pob ased anniriaethol yn cael eu mesur ar gost. Mae asedau anniriaethol yn cael eu hamorteiddio ar sail llinell syth dros gyfnod o 10 mlynedd.

(f) Asedau Treftadaeth

Cyn 1 Ebrill 2001, nid oedd casgliad y Llyfrgell wedi'i gyfalafu yn y fantolen. Rhoddwyd pryniannau i'r casgliad dan bennawd Cronfeydd Cyhoeddus Cyfyngedig yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol ym mlwyddyn eu caffael. Caiff pryniannau ar gyfer y casgliad eu cyfalafu ym mlwyddyn eu caffael a'u cadw ar eu gwerth hanesyddol; ni chaiff yr asedau hyn eu hailbriso na'u mynegeo.

Rhoddir cyfrif am eitemau sy'n cael eu rhoi yn rhoddion i'r casgliadau pan gânt eu derbyn ar ragamcan o'u gwerth ar y farchnad. Ni chaiff yr asedau hyn eu hailbriso na'u mynegeo.

Nid yw Asedau Treftadaeth yn cael eu dibrisio gan fod iddynt oes amhenodol.

Bydd gwerth ased ar bapur yn cael ei adolygu dim ond lle ceir tystiolaeth o amhariad.

(g) Stoc

Mae cost stoc o eitemau y gellir eu hailwerthu wedi'i chydabod yn y fantolen yn ôl y gost neu'r gwerth gwireddadwy net, pa un bynnag yw'r isaf. Ni roddir pris ar unrhyw asedau a gafodd eu cynhyrchu gan y Llyfrgell yn y gorffennol lle mae marchnad gyfyngedig i'r nwyddau, neu lle ystyrir eu bod wedi eu hamharu.

(h) Costau Pensiwn

Mae gan y Llyfrgell ei chynllun pensiwn ei hun sy'n darparu buddion sy'n seiliedig ar gyflog pensiynadwy terfynol. Cofnodir cyfraniadau i'r cynllun yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol er mwyn lledaenu cost pensiynau dros fywydau gweithio'r gweithwyr. Cyfrifir yr hyn a gofnodir yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol ar sail cost gwasanaeth cyfredol fel y'i cyfrifir gan actiwari'r cynllun.

(i) Tâl gwyliau staff

Ar ddiwedd y flwyddyn, mae hawl gwyliau staff nad yw wedi'i gymryd eto ac a gaiff ei gario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf wedi'i ystyried yn y cyfrifon yn unol â gofynion FRS 102.

(j) Trethiant

Mae Cyllid a Thollau EM wedi rhoi statws elusennol i'r Llyfrgell ac felly mae wedi'i heithrio rhag treth ar incwm ac enillion sy'n rhan o adran 505 o Ddeddf Trethi 1988 neu adran 252 o Ddeddf

Trethu Enillion Trethadwy 1992 i'r graddau y bo'r rhain yn berthnasol i'w nodau elusennol. Mae Treth ar Werth nad yw'n adferadwy sy'n deillio o wariant ar weithgareddau anfasnachol yn cael ei chofnodi yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol neu ei chyfalafu os yw'n gysylltiedig ag ased sefydlog.

(k) Meysydd arwyddocaol o amcangyfrif a barnu

Mae paratoi'r datganiadau ariannol yn gofyn am wneud dyfarniadau, amcaniadau a thybiaethau sy'n effeithio ar werthoedd asedau, rhwymedigaethau, refeniw a threuliau a gofnodwyd. Mae natur yr amcangyfrif a'r dyfarnu yn golygu y gallai canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r disgwyl.

Ffynonellau ansicrwydd amcangyfrif

- Caiff y rhwymedigaeth pensiwn â buddion wedi'u diffinio ei chydnabod a'i datgelu yn unol ag FRS 102. Mae'r prisiad, a baratowyd gan actiwari cymwysedig, yn adlewyrchu nifer o ddyfarniadau ac amcangyfrifiadau gan gynnwys yr adenillion disgwylledig ar asedau, cyfradd y disgownt, chwyddiant cost a disgwylad oes.
Mae newidiadau yn y tybiaethau hyn yn cael effaith sylweddol ar werth y rhwymedigaeth pensiwn â buddion wedi'u diffinio.
- Caiff asedau tir ac adeiladau eu prasio'n broffesiynol o bryd i'w gilydd. Paratoir y prisiad gan syrfëwr cymwysedig ac fe'i paratowyd yn unol â Llyfr Coch RICS. Mae adeiladau wedi'u prasio ar sail 'gwerth y farchnad agored' neu 'gost dibrisiant adnewyddu', a dangosir y tir yn ôl 'gwerth defnydd presennol'. Mae'r dulliau hyn yn amodol ar wahanol dybiaethau a safbwyntiau, a gallai newidiadau i'r naill neu'r llall gael effaith sylweddol ar y prisiad.

(l) Busnes Gweithredol

Paratowyd cyfrifon y Llyfrgell ar sail busnes gweithredol. Mae Bwrdd y Llyfrgell wedi cydnabod y diffygion sylweddol yn y cyfrif refeniw a ragwelwyd, a bydd yn ystyried cynlluniau i fynd i'r afael â'r sefyllfa hon. Bydd lefel sylweddol arian wrth gefn y cronfeydd preifat anghyfyngedig yn sicrhau y gall y Llyfrgell barhau â'r gweithgareddau presennol nes bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r diffyg. Nid oes ansicrwydd perthnasol arall ynghylch gallu'r Llyfrgell i barhau i weithredu.

2. GRANTIAU'R LLYWODRAETH

	2020/21	2019/20
	£000	£000
Anghyfyngedig		
Cymorth Grant	10,444	9,985
Cyfyngedig		
Cyfalaf - Grant Pwrcasu	305	305
Cyfalaf – Grant Datblygiadau Digidol	-	41
Cyfalaf - Cyffredinol	2,790	1,000
Llyfrgelloedd Digidol	498	186
Casgliad y Werin Cymru	114	117
Academi'r Colegau Brenhinol yng Nghymru (ARCW)	47	141
Wikipedia	57	38
Cyfanswm y grant a gafwyd gan Lywodraeth Cymru	14,255	11,813

3. GRANTIAU ERAILL

	2020/21	2019/20
	£000	£000
Arian cyhoeddus cyfyngedig		
Grantiau'r Undeb Ewropeaidd	10	-
Sefydliad Ffilm Prydeinig	21	-
Cronfa Dreftadaeth y Loteri – Archif Ddarlledu Genedlaethol	270	222
Cronfa Dreftadaeth y Loteri - Save our Sounds	130	135
Mân grantiau eraill	13	50
	444	407
Arian cyhoeddus anghyfyngedig		
Y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws	612	-
Cyfanswm y grantiau eraill	1,056	407

Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, mae'r Llyfrgell wedi hawlio grant gwerth £612k o'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws. Roedd hyn yn gyfartaledd o 54 aelod staff y mis dros y cyfnod 12 mis. Roedd angen cau adeilad y Llyfrgell wrth i Lywodraeth Cymru ymateb i bandemig COVID-19. Nid oedd gwasanaethau a oedd yn cynhyrchu incwm masnachol yn gallu gweithredu ac o'r herwydd roedd incwm y Llyfrgell am y flwyddyn wedi gostwng yn sylweddol. Cafodd y Llyfrgell gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru i'w chais am gyllid o dan y Cynllun.

4. INCWM O WEITHGAREDDAU MASNACHOL ERAILL

	2020/21	2019/20
Incwm cyhoeddus anghyfyngedig	£000	£000
Arlwyo	2	211
Incwm o'r siop	20	93
Digwyddiadau	-	17
Ymgynghori a systemau	14	46
Incwm a grëwyd o gasgliadau	24	61
Trwyddedu a breindaliadau	43	36
Amrywiol	42	133
Maes Parcio	-	13
Cyfanswm	145	610

5. DADANSODDIAD O WARIANT

	Costau Staff	Costau uniongyrchol eraill	Dibrisiant ac amorteiddio	2020/21 CYFAN SWM £000	2019/20 CYFANS WM £000
Cost codi arian	512	68	56	636	937
Gwariant Elusennol					
Casglu	1,720	1,272	271	3,263	2,829
Darparu Mynediad a Gwybodaeth	3,097	456	330	3,883	3,384
Hyrwyddo a Dehongli	1,382	141	133	1,656	1,751
Cadwraeth a Diogelu	3,434	113	354	3,901	3,582
Llywodraethu	668	549	174	1,391	1,230
	10,813	2,599	1,318	14,730	13,713

6. INCWM / (GWARIANT) NET AM Y FLWYDDYN

	2020/21	2019/20
Caiff hyn ei nodi ar ôl codi tâl am y canlynol:	£000	£000
Dibrisiant ac amorteiddio	1,318	1,210
Tâl yr Archwilydd allanol	33	33
Ffioedd archwilio mewnol	12	12
Ffioedd rheoli buddsoddiadau	45	40

7. DADANSODDIAD O'R COSTAU CEFNOGI

Mae'r Llyfrgell yn nodi costau ei swyddogaethau cefnogi i ddechrau. Yna mae'n nodi'r costau hynny sy'n gysylltiedig â'r swyddogaeth llywodraethiant. Ar ôl nodi ei chostau llywodraethiant, caiff y costau cefnogi sy'n weddill eu dosrannu rhwng costau codi arian a'r pedwar prif weithgarwch elusennol a wnaed yn ystod y flwyddyn.

Caiff costau cefnogi cyflogau eu dosrannu yn unol â chostau cyflogau ar gyfer pob adran, gyda chostau cefnogi nad ydynt yn ymwneud â staff yn cael eu dosrannu yn seiliedig ar wariant ar weithgarwch.

	Costau cynhyrchu cronfeydd	Llywodraethiant	Casglu	Darparu Mynediad a Gwybodaeth	Hyrwyddo a Dehongli	Cadwraeth a Diogelu	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Cefnogaeth Weithredol	1	2	5	9	4	10	31
Cyllid	8	30	52	53	21	50	214
AD	6	30	48	44	17	40	185
TGCh	40	155	268	282	115	268	1,128
Adeilad	47	355	536	388	144	306	1,776
Arall	2	3	7	13	6	13	44
	104	575	916	789	307	687	3,378

8. DADANSODDIAD O GOSTAU STAFF, TALIADAU A THREULIAU YMDDIRIEDOLWYR A CHOSTAU PERSONÉL RHEOLI ALLWEDDOL

(a) Cyfanswm Costau Staff

	2020/21		2019/20	
	£000	£000	£000	£000
Cyflogau		6,760		6,336
Costau Nawdd Cymdeithasol (yn cynnwys Ardoll Brentisiaethau)		619		595
Costau Pensiwn				
Cost Gwasanaeth Cyfredol	1,694		1,673	
Cyfraniad diffyg ar gyfer cost gwasanaeth yn y gorffennol	-		32	
	400		400	
Cyfraniad pensiwn ychwanegol				
Addasiad FRS102 ar gyfer cost gwasanaeth cyfredol	1,340		560	
		3,434		2,665
Cyflogau fel y nodwyd yn nodyn 5		10,813		9,596
Tâl llog cyllid FRS102 (gweler nodyn 22d)		430		250
Cyfanswm		11,243		9,846

Nid oedd dim contractwyr byrdymor nac asiantaethau wedi'u cyflogi.

Ar wahân i'r staff a nodwyd yn 8(c), nid oedd unrhyw aelod o staff yn ennill dros £60,000 (2019/20: dim).

(b) Y Cynllun Pensiwn

Mae'r Llyfrgell yn gweithredu cynllun pensiwn a ariennir, sy'n gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio, sy'n darparu buddion ar sail cyflog terfynol pensiynadwy adeg oedran ymddeol arferol. Bydd cyfraniadau'r aelodau sy'n gadael y cynllun ac sydd wedi cyfrannu am lai na 2 flynedd yn cael eu hadalu iddynt. Mae'r buddion yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r cyflog pensiynadwy am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, telir cyfandaliad sydd gyfwerth â thair blynedd o bensiwn pan fydd gweithiwr yn ymddeol. Pan fydd aelod yn marw, mae pensiynau'n daladwy i'r partner priod ar gyfradd o hanner pensiwn yr aelod. Os bydd aelod yn marw ac yntau'n dal yn y swydd mae'r cynllun yn talu cyfandaliad. Mae ymddeol ar sail feddygol yn bosibl os bydd rhywun yn ddifrifol wael.

Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a dalwyd dros y cyfnod oedd £2.1m (2019/20 £2.1m) Cedwir asedau'r Cynllun ar wahân i rai'r Llyfrgell ac fe'u buddsoddwyd gyda Blackrock. Roedd y prisiad actiwaraid ar 31 Mawrth 2019 yn dangos bod gwerth asedau'r Cynllun ar y farchnad yn £73.2m ac roedd gwerth actiwaraid yr asedau hynny'n werth 100% o rwymedigaethau'r Cynllun. Fodd bynnag, erbyn 31 Mawrth 2021 asesiad interim yr Actiwari oedd bod y Cynllun yn debygol o fod wedi disgyn i ddiffyg o £3.5m. Roedd hyn oherwydd nifer o ffactorau, gan gynnwys y dyfarniad cyflog o 1 Ebrill 2019 a oedd wedi cynyddu'r buddion pensiwn yn sylweddol uwchlaw'r gyfradd y caniatwyd ar ei chyfer yn y prisiad llawn, gostyngiad yng nghyfradd y disgownt a ddefnyddir i gyfrifo buddion pensiwn ac effaith COVID-19 a Brexit ar brisiau asedau. Ar ben hynny, cafwyd effaith tymor hwy ar bris Giltiau mynegrifol sy'n gysylltiedig â'r RPI, sy'n debygol o ostwng pan fydd cynlluniau Llywodraeth y DU i roi'r gorau i ddefnyddio'r RPI a symud i'r CPI yn lle hynny.

Mae nodyn 22 yn rhoi rhagor o wybodaeth am sefyllfa ariannol y cynllun pensiwn er mwyn cydymffurfio â gofynion FRS102. Cyhoeddir datganiad yr actwari yng Nghyfrifon Blynyddol Cronfa Bensiwn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Yn 2006/07, rhoddodd Llywodraeth Cymru Warrant y Goron i'r Cynllun, sy'n eithrio'r Cynllun rhag y Gronfa Diogelu Pensiynau a'r ardoll gysylltiedig.

(c) Tâl y Tîm Gweithredol

Mae aelodau'r Tîm Gweithredol wedi ei nodi ar dudalen 2 (Manylion Gweinyddol a Chyfeirio). Mae telerau ac amodau'r Tîm Gweithredol yn cael eu nodi yn Rhan 6 Adroddiad yr Ymddiriedolwyr (6.5).

Roedd cyflog y Llyfrgellydd 3.41 gwaith yn fwy na chyflog canolrif (£28,176) y Llyfrgell. Mae uwch aelodau staff eraill yn derbyn cyflog gros, y penderfynir arno fel rhan o'r broses o negodi'r cylch cyflog ar gyfer holl aelodau staff eraill y Llyfrgell.

Cyfrifir gwerth buddion pensiwn fel a ganlyn:

- (gwir gynnydd yn y pensiwn* x20) + (gwir gynnydd mewn unrhyw gyfandaliad*) – (cyfraniadau gan yr aelod)

*heb gynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn.

Mae'r lluosydd 20 yn cael ei bennu yn y gofynion datgelu. Mae'r Llyfrgell wedi defnyddio'r ffigur hwn i gydymffurfio â'r canllawiau. Nid yw hwn yn swm sydd wedi'i dalu i unigolyn gan y Llyfrgell yn ystod y flwyddyn; cyfrifiad ydyw sy'n defnyddio gwybodaeth o'r tabl buddion pensiwn. Mae llawer o bethau'n gallu dylanwadu ar y ffigurau hyn, er enghraifft, newidiadau i gyflog unigolyn, a yw'n dewis gwneud

cyfraniadau ychwanegol i'r cynllun pensiwn o'i gyflog neu beidio, a ffactorau prisio eraill sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn yn gyffredinol.

Mae Cynllun Pensiwn Staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn gynllun cyflog terfynol a ariennir. Y cyfandaliadau a phensiynau cronodig yw'r symiau a fyddai'n cael eu talu o Ddyddiad Ymddeol Arferol pe bai'r aelod yn gadael y gwaith ar y dyddiad perthnasol. Y Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod (CETV) yw gwerth buddion y cynllun pensiwn wedi'i gyfalafu a gronnwyd gan aelod ar unrhyw adeg, wedi'i asesu gan actwari, gan gynnwys unrhyw Gyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol a throsglwyddiadau gwasanaeth i'r cynllun. Mae'r gwerthoedd trosglwyddo wedi cael eu cyfrifo yn unol â nodyn canllaw "GNI 1" a gyhoeddir gan Sefydliad yr Actiwariaid a Chyfadran yr Actiwariaid. Tybiwyd mai cyfradd chwyddiant pris oedd 0.5% (2019/20 1.7%).

Talwyd y taliadau canlynol i aelodau'r Tîm Gweithredol:

	2020/21			2019/20		
	Cyflog Cyfunol	Cynnydd/(gosty ngiad) gwirioneddol mewn Buddion Pensiwn	Un Cyfanswm Tâl	Cyflog Cyfunol	Cynnydd/(gosty ngiad) gwirioneddol mewn Buddion Pensiwn	Un Cyfanswm Tâl
	£	£	£	£	£	£
Mr P ap Llwyd Prif Weithredwr a Llyfrgellydd	96,213	38,890	135,103	94,230	120,950	215,180
Mr. DH Michael Cyfarwyddwr a Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd	79,856	33,124	112,980	80,269	23,263	103,532
Dr O Roberts Cyfarwyddwr a Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd	80,462	64,537	144,999	65,637	37,348	102,985

Mae hawliau pensiwn staff uwch y Llyfrgell sy'n gyfrifol am redeg adrannau sy'n llunio polisiau yn cael eu datgelu fel a ganlyn:-

	Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod ar 31/3/20 neu ar y dyddiad y daeth yn gyfarwyddwr os yw ar ôl hynny	Cyfanswm Pensiwn Cronedig ar 31/3/21	Cyfundaliad ar 31/3/21	Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod ar 31/3/21	Cynnydd mewn pensiwn cronedig net o chwyddiant	Cynnydd yn y cyfundaliad net o chwyddiant	Cynnydd (Gostyngiad) yn y gwerth trosglwyddo net o chwyddiant
	£	£	£	£	£	£	£
Mr P ap Llwyd Prif Weithredwr a Llyfrgellydd	563,710	23,080	69,240	579,640	1,620	4,870	13,110
Mr DH Michael Cyfarwyddwr a Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd	642,180	25,570	76,710	675,650	1,470	4,410	30,260
Dr O Roberts Cyfarwyddwr a Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd	196,470	11,300	33,900	261,060	2,780	8,330	63,610

(d) Cofrestr Rhoddion

Mae gan y Llyfrgell gofrestr rhoddion hefyd. Nid oes dim eitem a nodwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei hystyried o fudd perthnasol i'r datganiadau ariannol hyn.

(e) Taliad setliad

Rhoddwyd cyfrif am daliadau diswyddo gwirfoddol o £307,542 yn 2020/21, a thalwyd £20,200 o'r swm hwnnw yn 2020/21 (2019/20: Dim).

(f) Tâl i'r Bwrdd

Nid oes yr un aelod o'r Bwrdd yn derbyn tâl. Cyfanswm y costau teithio, cynhaliaeth a lletygarwch a wariwyd gan y Llyfrgell ar aelodau'r Bwrdd a'i Bwyllgorau oedd £261 (2019/20 £6,668), a hawliwyd hwn gan 2 o aelodau (2019/20: 16 aelod).

9. NIFEROEDD STAFF

Nifer y pen bob mis, ar gyfartaledd, oedd 239 (2019/20: 244) a nifer y staff cyfwerth ag amser llawn, ar gyfartaledd, a gyflogwyd gan y Llyfrgell (yn cynnwys staff achlysurol a rhan amser) yn ystod y flwyddyn oedd:

Niferoedd staff	2020/21	2019/20
Masnachu i godi arian	10.8	11.1
Casglu	38.8	39.9
Darparu Mynediad a Gwybodaeth	56.1	57.6
Hyrwyddo a Dehongli	30.2	31.0
Cadwraeth a Diogelu	66.9	68.5
Llywodraethu	12.9	13.3
Cyfanswm	215.7	221.4

10. ASEDAU SEFYDLOG DIRIAETHOL AC ANNIRIAETHOL

A. Asedau Diriaethol

	Tir Rhydd- ddaliad ac Adeiladau £000	Peiriannau, Ffitiadau a Chyfarpar £000	Cyfarpar cyfrifiadurol £000	Cyfanswm £000
Cost a Phrisiad				
Ar 1 Ebrill 2020	63,100	2,651	3,620	69,371
Ychwanegiadau	2,246	129	710	3,085
Gwarediadau	-	-	-	-
Ailbrisio	(1,239)	-	-	(1,239)
Ar 31 Mawrth 2021	64,107	2,780	4,330	71,217
Dibrisiant				
Ar 1 Ebrill 2020	-	1,863	2,356	4,219
A godwyd am y flwyddyn	787	153	310	1,250
Gwarediadau	-	-	-	-
Ailbrisio	(787)	-	-	(787)
Ar 31 Mawrth 2021	-	2,016	2,666	4,682
Gwerth Net ar Bapur				
Ar 31 Mawrth 2021	64,107	764	1,664	66,535
Ar 31 Mawrth 2020	63,100	788	1,264	65,152

Cafodd adeiladau a thir rhydd-ddaliad y Llyfrgell eu priso'n broffesiynol gan Cooke ac Arkwright, Syrfewyr Siartredig, ar 31 Mawrth 2021. Cynhaliwyd y broses brisio yn unol â Llawlyfr Arfarnu a Phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Prisiwyd adeiladau ar sail eu "gwerth ar y farchnad agored" neu "gost eu hadnewyddu wedi'i dibrisio", a dangosir y tir fel "gwerth y defnydd cyfredol ohono".

Swm cario ymlaen yr adeiladau a'r tir rhydd-ddaliad dan y confensiwn cost hanesyddol fyddai £42,430k (2019-20: £41,278k).

Defnyddiwyd pob ased diriaethol i hyrwyddo gweithgareddau elusennol y Llyfrgell.

B. Asedau Anniriaethol

	Datblygiadau digidol
	£000
Cost	
Ar 1 Ebrill 2020	1,086
Ychwanegiadau	-
Ar 31 Mawrth 2021	1,086
Amorteiddiad	
Ar 1 Ebrill 2020	681
A godwyd am y flwyddyn	68
Ar 31 Mawrth 2021	749
Gwerth Net ar Bapur	
Ar 31 Mawrth 2021	337
Ar 31 Mawrth 2020	405

II. BUDDSODDIADAU

	2020/21	2019/20
	£000	£000
Buddsoddiadau	12,177	8,730
Arian parod a gaiff ei ddal ar gyfer buddsoddiadau	1,453	2,419
Cyfanswm buddsoddiadau	13,630	11,149
Gwerth ar y farchnad ar 1 Ebrill 2020	8,730	9,708
Caffaeliadau yn ôl eu cost	7,495	984
Llai gwarediadau	(6,383)	(1,144)
Elw/(Colled) wrth waredu	1,064	235
(Colled)/Elw heb ei wireddu wrth ailbriso	1,271	(1,053)
Gwerth ar y farchnad ar 31 Mawrth	12,177	8,730
Arian yn cael ei gadw ar gyfer buddsoddi		
Ar 1 Ebrill 2020	2,419	2,029
(Gostyngiad)/cynnydd	(966)	390
Ar 31 Mawrth 2021	1,453	2,419

Cost hanesyddol y buddsoddiadau ar 31 Mawrth 2021 oedd £11.508m (2019/20 £10.332m).

Buddsoddwyd yr asedau fel a ganlyn:-

	Giltiau, bondiau, dyledebion a blaengyfrannau (preference)	Buddsoddiadau drwy unedau, ecwitiau, eiddo ac asedau amgen	Ecwitiau'r DU a fuddsoddwyd yn uniongyrchol ar farchnad stoc y DU	Arian Parod	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Portffolio Rhif 1	1,489	7,552	2,319	(7)	11,353
Portffolio Rhif 2	390	342	85	1,460	2,277
	1,879	7,894	2,404	1,453	13,630

Wrth benderfynu ar yr enillion y mae'r Llyfrgell am eu cael o'i phortffolio, a'r cydbwysedd rhwng incwm a thwf cyfalaf, mae'r Llyfrgell yn fodlon derbyn y bydd risgiau'n gysylltiedig â buddsoddi cronfeydd a fydd yn fwy na'r risg sy'n gysylltiedig â dim ond rhoi arian i gadw. Mae'r Llyfrgell yn fodlon derbyn y rhain gyhyd â'u bod o fewn lefelau derbyniol.

“Canolig” yw'r gair gorau i ddisgrifio archwaeth risg y Llyfrgell. Er mwyn sicrhau enillion gwell, mae'r Llyfrgell yn fodlon derbyn bod yn rhaid cymryd risgiau. Ond bydd yr Ymddiriedolwyr hefyd yn ystyried sefyllfa'r Llyfrgell fel elusen a ariennir yn bennaf gan grant oddi wrth y Llywodraeth ac o'r herwydd y

safonau stiwardiaeth sydd ynghlwm wrth hynny. Felly bydd y risgiau wrth fuddsoddi'n cael eu lliniaru gan y canlynol:

- **Dyrannu Asedau** - strategaeth dyrannu asedau nad yw'n peri bod yr arian yn rhy agored i amrywiadau mewn un sector penodol o'r sbectrwm buddsoddi - hynny yw, bydd cydbwysedd yn cael ei daro rhwng niferoedd y bondiau, ecwitiau, arian a buddsoddiadau eraill gan gynnwys eiddo, a buddsoddiadau yn y DU a heb fod yn y DU.
- **Ansawdd buddsoddiadau** - dim ond buddsoddiadau o ansawdd uchel y bydd y Llyfrgell yn eu hystyried megis giltiau a bondiau gradd buddsoddi neu ecwitiau a buddsoddiadau ar y cyd yn y FTSE 350.

12. ASEDAU TREFTADAETH

Mae'r Asedau Treftadaeth yn cael eu cyfalafu ar sail cost hanesyddol.

Prynwyd neu rhoddwyd yn ystod y flwyddyn:

	Llyfrau	Tanysgrifiadau	Lluniau Llawysgrifau a Mapiau	Eraill	Casgliadau Digidol	Yr Archif Sgrin a Sain	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Ar 01/04/20	1,971	2,799	11,916	380	4,370	366	21,802
Ychwanegiadau	25	32	157	-	-	4	218
Rhoddion	-	-	452	-	-	1	453
Ar 31/03/21	1,996	2,831	12,525	380	4,370	371	22,473

Crynodeb ariannol pum mlynedd o'r ychwanegiadau:

	2020/21 £'000	2019/20 £000	2018/19 £000	2017/18 £000	2016/17 £000
Llyfrau	25	40	51	47	38
Tanysgrifiad	32	44	55	48	53
Lluniau, Llawysgrifau a Mapiau	157	312	381	148	249
Ffilmiau a cherddoriaeth	4	5	12	6	9
Cyfanswm yr Ychwanegiadau	218	401	499	249	349

Mae gan y Llyfrgell bolisi y cytunwyd arno ar gyfer prynu, diogelu, a rheoli asedau treftadaeth. Mae copi o'r polisi ar gael ar gais. Nid yw'r Llyfrgell yn rhoi benthg eitemau i ddefnyddwyr, ond mae modd gweld y casgliadau yn yr ystafelloedd darllen a manau arddangos yn yr adeilad, ac ar-lein.

Ers 1911, mae gan y Llyfrgell hawl i dderbyn copi o bob llyfr, cylchgrawn, papur newydd a deunydd print arall a gyhoeddir yn y DU ac Iwerddon. Deunydd o ddi-ddordeb Cymreig a Cheltaidd y mae'n ei gasglu'n bennaf. Mae ei chasgliadau ar hyn o bryd yn cynnwys:

- **Deunydd Print:** sy'n amrywio o *Yny lhyvyr hwenn*, y llyfr cyntaf yn yr iaith Gymraeg (a argraffwyd yn 1546) i raglenni digwyddiadau lleol megis cyngerddau a sioeau.
- **Llawysgrifau ac archifau:** sy'n cynnwys eitemau amhrisiadwy o'r Canol Oesoedd fel Llyfr Llandaf, llawysgrif Chaucer Hengwrt a Llyfr Du Caerfyrddin.
- **Mapiau:** Hynafiaethol a modern ac atlasau, mapiau Arolwg Ordnans, siartiau moroedd, mapiau ffermydd, ystadau a mapiau degwm, cynlluniau rheilffordd a gwasanaethau cyhoeddus.

- **Lluniau:** yn portreadu pobl a llefydd yng Nghymru gan gynnwys paentiadau, printiau, ysgythriadau a lluniau eraill.
- **Ffotograffau:** gwaith Mary Dillwyn, John Thomas, D. C. Harries a Geoff Charles.
- **Adnoddau electronig a delweddau digidol:** Mae'r casgliadau newydd hyn sydd wedi'u creu'n bennaf gan y Llyfrgell yn cynnwys dros 5 miliwn o ddelweddau.
- Mae gan **Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru** dros 250,000 awr o recordiadau sain, 300,000 awr o ddelweddau symudol, 7 miliwn troedfedd o ffilm, 200,000 eitem o Archif ffilm a theledu ITV a 15km o archif unigryw.

Ni chyfalafwyd unrhyw gyflogau yn ystod y cyfnod yma.

13 DYLEDWYR - yn ddyledus o fewn blwyddyn

	31 ^{ain} Mawrth 2021	31 ^{ain} Mawrth 2020
	£000	£000
Dyledwyr Masnach	42	35
Ad-daliad TAW yn ddyledus	484	458
Blaendaliadau	621	496
Dyledwyr Eraill ac Incwm Cronedig	326	239
Incwm Cronedig Cronfeydd Preifat	1,168	665
	2,641	1,893

Wedi'i gynnwys mewn incwm cronedig o gronfeydd Preifat mae balans o £1,050k sy'n ymwneud ag etifeddiaeth eiddo y bydd y Llyfrgell yn ei derbyn 2 flynedd ar ôl y grant profiant yn unol â thelerau'r ewyllys. Cyhoeddwyd y grant profiant ar 16 Ebrill 2021 ac felly bydd y Llyfrgell yn derbyn yr amcangyfrif hwn o'r swm ar neu ar ôl 16 Ebrill 2023.

14 (a) CREDYDWYR - symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn

	31 ^{ain} Mawrth 2021	31 ^{ain} Mawrth 2020
	£000	£000
Credydwyr Masnach	74	117
Croniadau ac incwm gohiriedig	776	342
Croniadau tâl gwyliau	301	190
	1,151	649

14 (b) CREDYDWYR – Symudiad ar incwm gohiriedig

	31 ^{ain} Mawrth 2021	31 ^{ain} Mawrth 2020
	£000	£000
Incwm gohiriedig a ddygwyd ymlaen	245	270
Wedi'i ryddhau o'r flwyddyn flaenorol	(147)	(41)
Incwm gohiriedig yn y flwyddyn gyfredol	325	16
Incwm gohiriedig a gariwyd ymlaen	423	245

Incwm Gohiriedig yn ymwneud â grantiau a gafwyd.

15 DADANSODDIAD O'R CRONFEYDD ELUSENNOL

a. Dadansoddiad o symudiad y cronfeydd – Cyhoeddus

	Ar 01/04/20	Adnoddau sy'n dod i mewn	Adnoddau a Wariwyd	Symudiadau eraill yn ystod y flwyddyn	Ar 31/03/21
	£000	£000	£000	£000	£000
CRONFEYDD CYHOEDDUS					
Anghyfyngedig - Pensiwn Cyhoeddus	(24,490)	-	(1,770)	(1,660)	(27,920)
Anghyfyngedig	338	11,201	(10,750)	-	789
	(24,152)	11,201	(12,520)	(1,660)	(27,131)
Cyfyngedig: -					
Cyfalaf a Datblygiadau digidol	49,966	2,790	(1,318)	850	52,288
Cronfa Ailbriso*	21,822	-	-	(452)	21,370
Cronfeydd eraill cyfyngedig	149	1,160	(1,249)	-	60
Cronfeydd grant pwrcasu	8,762	305	-	-	9,067
Cyfanswm cronfeydd cyfyngedig cyhoeddus	80,699	4,255	(2,567)	398	82,785
CYFANSWM CYHOEDDUS	56,547	15,456	(15,087)	(1,262)	55,654

*Mae'r gronfa ailbriso wedi'i chyfrifo yn seiliedig ar yr asedau a ail-brisiwyd ers 1999 yn unol â gofyniad FRS 102 i nodi'r gronfa ailbriso ar wahân. Ni chaiff ailbrisiadau cyn 1999 eu cynnwys yn y gronfa hon.

Ymhlith y symudiadau eraill yn ystod y flwyddyn o £1,262k mae:

- Ailbriso Asedau Sefydlog Diriaethol, mynegeio ac amhariad – (£452k)
- Enillion / (colledion) actiwaraidd - (£1,660k)

b. CRONFEYDD PREIFAT (yn cynnwys casgliadau)

	Anghyfyngedig	Cyfyngedig	Casglu	Cyfanswm 2020/21	Cyfanswm 2019/20
	£000	£000	£'000	£000	£000
Incwm					
Rhoddion a Chymynroddion	1,210	25	453	1,688	1,435
Incwm o fuddsoddiadau	158	3	-	161	272
Cyfanswm	1,368	28	453	1,849	1,707
Adnoddau a Wariwyd					
Costau codi arian	44	1	-	45	43
Costau prosiectau preifat	-	28	-	28	28
(Elw)/colled o werthu buddsoddiadau	(1,042)	(21)	-	(1,063)	(234)
Cyfanswm	(998)	8	-	(990)	(163)
Adnoddau net a Dderbyniwyd / (a Ddefnyddiwyd)	2,366	20	453	2,839	1,870
Trosglwyddiadau	(822)	(28)	-	(850)	(349)
	1,544	(8)	453	1,989	1,521
(Colled)/Elw heb ei wireddu ar fuddsoddiadau	1,271	-	-	1,271	(1,050)
Symudiad net yn y cronfeydd preifat yn ystod y flwyddyn	2,815	(8)	453	3,260	471
Dygydd ymlaen ar 1 Ebrill	12,007	257	7,026	19,290	18,819
Cariwyd Ymlaen ar 31 Mawrth	14,822	249	7,479	22,550	19,290

Mae cyfanswm y cronfeydd cyfyngedig a chasgliadau preifat yn cynrychioli cyfanswm y cronfeydd preifat cyfyngedig o £7,728k.

16. DADANSODDIAD O'R CRONFEYDD NET RHWNG Y CRONFEYDD

	Cyhoeddus anghyfngedig £'000	Cyhoeddus cyfngedig £'000	Preifat anghyfngedig £'000	Preifat cyfngedig £'000	Cyfanswm £'000
Asedau Sefydlog	-	81,865	13,383	7,727	102,975
Arian yn y banc ac mewn llaw	172	-	1,440	2	1,614
Asedau cyfredol net/(rhwymedigaethau) eraill	615	920	-	-	1,535
Credydwyr ar ôl mwy na blwyddyn	(27,920)	-	-	-	(27,920)
Cyfanswm	(27,133)	82,785	14,823	7,729	78,204

17. CYSONI'R INCWM /(GWARIANT) NET Â'R LLIF ARIAN PAROD NET O WEITHGAREDDAU GWEITHREDOL

	2020/21 £000	2019/20 £000
Incwm /(Gwariant) net ar gyfer y cyfnod adrodd (fel y datganiad gweithgareddau ariannol)	3,208	808
Elw o werthu buddsoddiadau/asedau sefydlog	(1,063)	(234)
Addasiad pensiwn llog FRS102	430	250
Taliadau dibrisiant ac amorteiddio (Cynnydd)/Lleihad yn y stoc	1,318	1,210
	-	(1)
Rhoddion asedau treftadaeth (dim arian parod) (Cynnydd) /Gostyngiad mewn dyledwyr	(453)	(419)
(Gostyngiad)/Cynnydd mewn credydwyr	(748)	(742)
Addasiad pensiwn cost gwasanaeth cyfredol	502	(361)
	1,340	560
Llif arian parod net o weithgareddau gweithredol	4,534	1,071

18. DADANSODDIAD O ARIAN PAROD A'R HYN SY'N CYFATEB I ARIAN PAROD

	2020/21 £000	2019/20 £000
Arian yn y cyfrifon banc	1,614	530
Arian yn cael ei ddal o fewn y buddsoddiadau	1,453	2,418
Arian a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar 31 Mawrth	3,067	2,948

19. TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Ystyrir Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn cafodd y Llyfrgell arian gan y Llywodraeth ar ffurf Cymorth Grant, a Grantiau Prynu, Cyfalaf a Phrosiect fel y'u datgelir yn nodyn 2. Talodd y Llyfrgell y symiau canlynol i Lywodraeth Cymru: -

- Llog a ad-dalwyd - £Nil (2019/20: £9k)

Datgelir manylion gwariant mewn perthynas â theithio, cynhaliaeth a lletygarwch aelodau'r bwrdd yn Nodyn 8(f).

Mae trafodion a balansau'r cynllun pensiwn yn cael eu datgelu yn Nodyn 8.

Mae trafodion partïon cysylltiedig ag aelodau'r Bwrdd ac aelodau o'r uwch dîm rheoli wedi'u nodi yn y tabl isod.

Parti cysylltiedig	Perthynas	2020/21		2019/20	
		Incwm	Dyledwr	Incwm	Dyledwr
		(Gwariant)	(Credydwr)	(Gwariant)	(Credydwr)
		£	£	£	£
Coleg Cymraeg Cenedlaethol Cymru	Mae Mr Pedr ap Llwyd, Prif Weithredwr y Llyfrgell, yn Gyfarwyddwr. Mae Gwilym Dyfri Jones, Ymddiriedolwr y Llyfrgell, yn Gyfarwyddwr. Mae Ms Meri Huws, Ymddiriedolwr y Llyfrgell, yn Gyfarwyddwr.	0	0	949	0
Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol	Mae Mr David Michael, Cyfarwyddwr y Llyfrgell, yn aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio.	399,924	232,682	356,812	162,816
Prifysgol Caerdydd	Mae Janet Wademan, Ymddiriedolwr y Llyfrgell, yn Aelod o'r Cyngor.	(3,472)	0	311 / (195)	0
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	Mae Dr Liz Siberry, Ymddiriedolwr y Llyfrgell, yn Aelod o'r Cyngor.	15,884 / (18,813)	13,534	1,299	0
Gŵyl Hanes Cymru i Blant	Mae Ms Eleri Twynog Davies, Ymddiriedolwr y Llyfrgell, yn Gyfarwyddwr.	(1,200)	0	0	0
Prifysgol Aberystwyth	Mae Ms Meri Huws, Ymddiriedolwr y Llyfrgell, yn Aelod o'r Cyngor.	208 / (8,590)	0	683 / (9,023)	0

Ar 31 Mawrth 2021, roedd gan y Llyfrgell ddyledwyr a chredydwyr cyfunol gyda chyrrff eraill sy'n derbyn cyllid gan y Llywodraeth fel a ganlyn:

	Dyledwyr	Credydwyr: llai na blwyddyn	Credydwyr: mwy na blwyddyn
	£000	£000	£'000
Cyrrff Llywodraeth Ganolog	516	423	-
Cyrrff Llywodraeth Leol	-	-	-
Cyrrff Anllywodraethol	2,125	728	-
Cyfanswm	2,641	1,151	-

20. ASEDAU A RHWYMEDIGAETHAU ARIANNOL - DATGELIAD RISG

Nid oes gan y Llyfrgell fenthyciadau ac mae'n dibynnu'n bennaf ar grantiau adrannol ar gyfer ei gofynion arian ac felly nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Datgelir yr unig adnau o bwys yn nodyn 11, ac mae'r holl asedau a rhwymedigaethau o bwys mewn sterling, ac felly nid yw'n agored i risg yn ymwneud â'r gyfradd llog neu ag arian cyfred. Yn 2020/21, daeth £14.255m neu 82% o incwm cyfunol y Llyfrgell gan Lywodraeth Cymru (2019/20 £11.813m neu 81%). Daw'r gweddill, £3.05m neu 18% (2019/20 £2.72m neu 19%) o incwm o gronfeydd preifat y Llyfrgell (nodyn 15b), o weithgareddau masnach (nodyn 4) ac o grantiau gan gyrrff eraill, fel y datgelir yn Nodyn 3 y cyfrifon hyn.

Mae'r Llyfrgell yn agored i risg y farchnad drwy ei buddsoddiadau, ac mae hyn yn cael ei reoli drwy arallgyfeirio'r portffolio, yn ogystal â gosod amcanion i Reolwr y Gronfa ynglŷn ag archwaeth risg a buddsoddiad.

21. PRYDLESI

Ni wnaeth y Llyfrgell unrhyw daliadau prydles yn ystod y flwyddyn na'r flwyddyn flaenorol.

22. COSTAU PENSIWN

Mae gan y Llyfrgell gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio gyda buddion yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r cyflog pensiynadwy ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Cafwyd y prisiad actiwaraid llawn ddiwethaf ar 31 Mawrth 2019 ac aseswyd bod y Cynllun yn cael ei ariannu 100%.

Yn ystod 2020/21, cyfrannodd y Llyfrgell 27.2% o gyflogau pensiynadwy ac mae disgwyl i gyfraniadau'r cyflogwr ar gyfer 2021/22 fod yn £1.7 miliwn, yn ogystal â chyfraniad ychwanegol o tua £400k yn dibynnu ar yr alldro amcanol.

(a) Datblygu Sefyllfa'r Fantolen Net

	31 Mawrth 2021	31 Mawrth 2020
	£m	£m
Gwerth teg yr asedau (22b)	82.45	74.14
Gwerth actiwaraid rhwymedigaethau'r cynllun (22c)	110.37	98.63
Rhwymedigaeth pensiwn sydd yn y fantolen	(27.92)	(24.49)

(b) Newidiadau yng ngwerth teg asedau'r cynllun

	Y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2021	Y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2020
	£m	£m
Asedau'r cynllun ar ddechrau'r flwyddyn	74.14	73.18
Buddion a dalwyd o asedau'r cynllun	(2.24)	(2.15)
Cyfraniadau'r cyflogwr	2.09	2.10
Cyfraniadau'r aelodau	0.10	0.10
Costau gweinyddol	(0.14)	(0.11)
Incwm llog ar Asedau'r Cynllun	1.33	2.12
Elw ar asedau'r cynllun sy'n fwy/(llai) na'r gyfradd ddisgownt	7.17	(1.10)
Asedau'r cynllun ar ddiwedd y flwyddyn – (22a)	82.45	74.14

(c) Dadansoddiad o'r newidiadau yn y Rhwymedigaethau Buddion wedi'u Diffinio (DBO)

	Y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 £m	Y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 £m
Rhwymedigaethau'r cynllun ar ddechrau'r flwyddyn	98.63	82.97
Cost llog ar y DBO	1.76	2.37
Effaith gwasanaethau'r gweithwyr yn y cyfnod cyfredol	3.29	2.55
Cyfraniadau'r aelodau	0.10	0.10
Buddion a dalwyd o asedau'r cynllun	(2.24)	(2.15)
Ailfesur y DBO/newid tybiaethau	8.83	12.79
Rhwymedigaethau'r cynllun ar ddiwedd y flwyddyn – (22a)	110.37	98.63

(d) Symiau a gofnodwyd yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol (Cyfanswm Gwariant)

	Y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2021	Y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2020
	£m	£m
Effaith gwasanaethau'r gweithwyr yn y cyfnod cyfredol	3.29	2.55
Llog net ar (ased)/rhwymedigaeth buddion net wedi'u diffinio	0.43	0.25
Cost y buddion wedi'u diffinio a gydnabyddir yn P&L	3.72	2.80
Costau gweinyddu yn ystod y cyfnod	0.14	0.11
Cyfanswm y gost a gydnabyddir yn y SOFA	3.86	2.91

(e) (Colledion)/Enillion Actiwaraid a gofnodwyd yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ((Colledion)/enillion cydnabyddedig eraill)

	Y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2021	Y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2020
	£m	£m
Elw ar asedau'r cynllun sy'n (fwy) / llai na'r gyfradd ddisgownt – (22b)	(7.17)	1.10
(Elw)/colled actiwaraid sy'n codi yn ystod y cyfnod – (22c)	8.83	12.79
Cyfanswm (enillion)/colledion actiwaraid a gydnabyddir yn y cronfeydd wrth gefn	1.66	13.89

(f) Cyfanswm cost y buddion wedi'u diffinio

	Y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2021	Y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2020
	£m	£m
Cyfanswm y gost a gydnabyddir yn SOFA - 22(d)	3.86	2.91
Effaith yr ail-fesur a gydnabyddir yn y cronfeydd wrth gefn (22(e))	1.66	13.89
Cost y buddion wedi'u diffinio	5.52	16.80

(g) Cysoni Sefyllfa'r Fantolen Net

	Y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 £m	Y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 £m
(Rhwymedigaeth) net wedi'i diffinio ar ddechrau'r flwyddyn	(24.49)	(9.79)
Effaith gwasanaethau'r gweithwyr yn y cyfnod cyfredol (22c)	(3.29)	(2.55)
Llog net ar (ased)/rhwymedigaeth buddion net wedi'u diffinio	(0.43)	(0.25)
Effaith yr ail-fesur a gynnabyddir yn y cronfeydd wrth gefn (22(e))	(1.66)	(13.89)
Cyfraniadau'r cyflogwr (22b)	2.09	2.10
Costau gweinyddol (22b)	(0.14)	(0.11)
Rhwymedigaethau'r cynllun ar ddiwedd y flwyddyn – (22a)	(27.92)	(24.49)

(h) Gwerth Asedau ar y Farchnad a Chanran Cyfanswm Asedau'r Cynllun

	31 Mawrth 2021		31 Mawrth 2020	
	£m	%	£m	%
Ecwitiau	20.81	25.2	45.00	60.7
Bondiau	54.71	66.4	25.95	35.0
Eiddo ac arall	6.93	8.4	3.19	4.3
Cyfanswm gwerth yr asedau	82.45		74.14	

(i) Tybiaethau Ariannol

Mae'r tybiaethau ariannol a wnaed er mwyn cyfrifo gofynion datgelu FRS102 fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2021	31 Mawrth 2020
	% y flwyddyn	% y flwyddyn
Chwyddiant Prisiau	2.22	2.35
Cyfradd y Cynnydd mewn Cyflogau	2.22	2.35
Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau sy'n cael eu talu*	2.22	2.35
Cyfradd ddisgownt**	1.25	1.80

**yn fwy nag unrhyw elfen GMP (Isafswm Pensiwn Gwarantedig)

**wedi'i ragnodi gan Drysorlys EM

Mae'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir ar gyfer datgeliadau FRS102 yn wahanol i'r un a ddefnyddiwyd gan yr Actwari ar gyfer yr asesiad ariannol mwyaf diweddar o'r Cynllun ar 31 Mawrth 2019. Bydd y gofyniad i ddefnyddio cyfradd ddisgownt y Trysorlys ar gyfer y datgeliad FRS102 yn golygu y bydd sefyllfa ariannol y Cynllun yn cael ei hasesu'n wahanol dan y mesur hwn o'i gymharu â'r dull a ddefnyddir ym mhriiad actiwaraid ffurfiol y Cynllun.

23. YMRWYMIADAU CYFALAF

Ar ddyddiad y fantolen, mae'r ymrwymadau sy'n weddill fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2021	31 Mawrth 2020
	£000	£000
Dan gontract – gwaith adeiladu ar Storfa Lyfrau I (Gogledd)	-	20
Dan gontract – gwaith newid oeryddion	-	21
Dan gontract – gofod y prif adeilad	170	1,817
Dan gontract – ffioedd proffesiynol	10	70
Dan gontract – gwaith newid lifft	30	-
	210	1,928

24. DIGWYDDIADAU YN DILYN CREU'R FANTOLEN

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau perthnasol hyd at y dyddiad yr awdurdodwyd y datganiadau ariannol hyn gan y Swyddog Cyfrifyddu ar 23 Gorffennaf 2021, a fyddai wedi golygu bod yn rhaid addasu'r cyfrifon.